# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNGOR BLYNYDDOL**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 18FED MAI, 2017**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**Eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 11/5/17)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

**www.gwynedd.llyw.cymru**

**DYDD IAU, 11 MAI 2017**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 18 MAI 2017**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 18FED MAI, 2017 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH,** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



<u>Prif Weithredwr</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Llaf Rhydd - Ystafell Llyfni

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am 2017/18.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd am 2017/18.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 5 - 24

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**8. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**9. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**10. ARWEINYDD Y CYNGOR**

Penodi Arweinydd y Cyngor.

**11. ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD** 25 - 43

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 44 - 47

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**13. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** 48 - 50

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**14. CALENDR PWYLLGORAU 2017/18** 51 - 52

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

## Y CYNGOR DYDD IAU, 2 MAWRTH 2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Daniels (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, W.Tudor Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R. H. Wyn Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr – Gwasanaethau / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd:-** Anthony Williams (Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad) - ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid) – ar gyfer eitem 11 ar y rhaglen, Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes) - ar gyfer eitem 18 ar y rhaglen, Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau Gofal) – ar gyfer eitem 19 ar y rhaglen, Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) – ar gyfer eitem 20 ar y rhaglen a Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - ar gyfer eitem 21 ar y rhaglen).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Chris Hughes, Brian Jones, Peter Read, Mair Rowlands a Glyn Thomas.

### 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2016 fel rhai cywir.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurodd y Swyddog Monitro y byddai'r prif swyddogion oedd yn bresennol yn gadael y siambr ar gyfer eitem 10 ar y rhaglen 'Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor' gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau. Byddai'r prif swyddogion i gyd, ac eithrio'r Prif Weithredwr, yn gadael ar gychwyn y drafodaeth ac yna byddai'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn dychwelyd ar gyfer y materion cyflogaeth eraill a'r Prif Weithredwr yn gadael er rhoi cyfle i'r aelodau godi unrhyw fater penodol yng nghyswllt cyflog y Prif Weithredwr.

Datganodd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog

Monitro fuddiant personol yn yr eitem hon gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roeddent o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro y cyfarfod yn ystod yr holl drafodaeth, a'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn ystod rhan o'r drafodaeth, ar yr eitem.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Mair Rowlands ar farwolaeth ei nain.

Nodwyd bod y Cyngor hefyd yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

**Dymuniadau gorau**

Dymunwyd yn dda i'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Peter Read yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar, a hefyd y Cynghorwyr Trevor Edwards a Brian Jones oedd yn dioddef o anhwylder ar hyn o bryd.
- Merch y Cynghorydd Louise Hughes, oedd wedi derbyn dau drawsblaniad organ yn ddiweddar, ac atgoffwyd pawb o bwysigrwydd rhoi organau.
- Clwb Ffermwyr Ifanc Dinas Mawddwy ar ennill cystadleuaeth hanner awr o adloniant yn Sir Feirionnydd, gan ddymuno pob lwc iddynt yn y rownd derfynol ym Mhorth Talbot dydd Sadwrn.
- Pawb o'r aelodau fyddai'n sefyll etholiad ym mis Mai.

**Croeso**

Croesawyd y Cynghorydd Tudor Owen yn ôl yn dilyn anhwylder diweddar.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Gethin Williams a'i wraig ar eu priodas yn Gretna Green yn ddiweddar.

**Gair o ddiolch**

Gan mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf yn y gadair, diolchodd y Cadeirydd i'w gyd-aelodau am bob cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 4. DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Rhoddodd yr Arweinydd ddatganiad yn sgil cyhoeddi ei fwriad i sefyll i lawr o'i rôl fel Arweinydd a chynghorydd dros Benygroes ym mis Mai. Nododd y bu'n Arweinydd y Cyngor ers 2008 ac y byddai ei olynydd yn etifeddu cyngor sefydlog ac uchelgeisiol sydd wedi gwneud gwahaniaeth er gwell i gymunedau a phobl y sir. Cyfeiriodd at nifer o lwyddiannau'r Cyngor dros y tymor hwn, a hynny er gwaethaf y cyd-destun ariannol heriol, a nododd fod pob aelod o'r Cyngor wedi chwarae ei ran yn y llwyddiant hwn.

Diolchodd i'r aelodau am eu cyfraniad a'u hymroddiad, nid yn unig i'w wardiau, ond i Wynedd gyfan. Diolchodd hefyd i arweinwyr y grwpiau gwleidyddol am y cydweithio, i

aelodau ei grŵp ei hun am fod yn gefn iddo, i'r Dirprwy Arweinydd am ei gefnogaeth ac i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am eu gwaith bugeiliol. Mynegodd ei werthfawrogiad o ymroddiad y staff i waith y Cyngor gan ddiolch i'r staff hynny fu'n ei gynorthwyo dros y blynyddoedd, Bethan, Einir a Llywela, a Thïm y Cabinet yn gyffredinol. Diolchodd yn arbennig i'r Prif Weithredwr am ei waith a'i barodrwydd i gofleidio newid ac arwain drwy esiampl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd am ei ddatganiad, ac ar ran yr holl aelodau, diolchodd iddo am ei arweiniad i'r Cyngor dros y blynyddoedd, gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Mynegodd y Dirprwy Arweinydd ei werthfawrogiad o arweiniad cadarn a doeth yr Arweinydd gan nodi iddo gynrychioli'r Cyngor hwn ar lefel genedlaethol a rhyng-genedlaethol ag urddas. Llwyddodd hefyd i ymestyn ar draws y pleidiau gan lobïo a rhoi yn ddiflino dros bobl Gwynedd.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Arweinydd, ar ran y staff, am ei arweinyddiaeth gadarn a chlir a'i allu i herio mewn ffordd adeiladol a chefnogol.

**5. CWESTIYNAU**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd R.H.Wyn Williams**

"Pa elw / grantiau mae Cyngor Gwynedd wedi ei dderbyn dros y 10 mlynedd ddiwethaf drwy Undeb Ewrop ynghyd â grantiau eraill a dderbyniwyd trwy bartneriaeth / busnes yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod 10 mlynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r cwestiwn gwreiddiol i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Ers 2007, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn £48.5m o arian gan Gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi galluogi i gyfanswm o £89.6m gael ei fuddsoddi yn y sir. Hefyd, mae cyrff eraill allanol fel Prifysgol Bangor, fel y gwelwch, yn cael arian sylweddol. Mae'r cwestiwn ynghlwm â'r arian, ond 'rwy'n meddwl, o fynd o gwmpas fy ngwaith dydd i ddydd dros y 2 flynedd ddiwethaf, yr hyn yr hoffwn dynnu sylw ato ydi'r hyn mae'r arian yma wedi ei alluogi, sef cefnogi swyddi a chefnogi syniadau, a hyn, mi gredaf, sy'n bwysig i'w fesur ynghlwm â'r arian."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R.H.Wyn Williams**

"Sut mae'r Cyngor yn gweld y sail o golli cymaint o gymorth yn y dyfodol a lle a beth yw'r patrwm at y dyfodol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned**

"Mae hwn yn dipyn o gwestiwn ac ni allaf ond ateb o'm profiad i o'r trafodaethau 'rwyf wedi gael yn rhinwedd fy swydd fel Aelod Cabinet. 'Rwy'n gweld sawl cyfeiriad o newid, bod yna gydweithio hefo 6 sir ar draws y Gogledd, ac mae hynny'n dda o beth, ond i fod yn rhan o'r arian 'rwy'n credu mai cyfeiriad llywodraeth San Steffan yw gwario ar isadeiledd a diwydiannau penodol. Mae'n rhaid i ni fod yn rhan o'r trafodaethau yna. Mae'n bwysig bod yn rhan o isadeiledd trydaneiddio Rheilffordd y Gogledd, ac ati. Ond hefyd mae yna dynfa i'r cydweithio yna fynd ar draws yr ardaloedd dinesig, y Northern Powerhouse, ac mae'r De yn gweithio gyda Bryste. Ac mae yna dynfa yma sydd yn fy mhryderu braidd. Mae'r prosiectau a welwch ar y rhestr yn brosiectau penodol i bwrpas

penodol sy'n hawdd eu mesur ac yn cael dylanwad da, mi gredaf. 'Rydym eisoes wedi rhestru prosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus yng Ngwynedd. Mae perygl ein bod yn colli'r prosiectau bychain yma ar draul bod yn rhan o'r trafodaethau isadeiledd mawr a hynny yw fy mhryder. Ymhellach ymlaen ar y rhaglen, byddwn yn trafod ail-drefnu llywodraeth leol ac 'rwy'n credu mai yna efallai mae ein cyfraniad ni fel Cyngor, h.y. ein bod yn sicrhau bod unrhyw ad-drefniant a chydweithio rhanbarthol yn sicrhau bod ein llais ni yna ar gyfer y pethau mân a bychain sy'n gwneud gwir wahaniaeth i fywydau ac i gyfleoedd pobl ynghyd â'r isadeiledd. Felly mae tipyn o waith o'n blaenau. O bosib' daw arian yn ôl yn gyfatebol i Gymru ond mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod y budd economaidd i ni, nid yn fudd i'r rhanbarthau dinesig, ond yn fudd i fywydau pobl go iawn. Dyna pam bod angen economi gref, er mwyn cynnal cymunedau, ac ati, a rhaid gwneud yn siŵr bod y gacen yn cael ei rhannu'n deg ar draws Cymru, ac nid i'r ardaloedd ar y ffiniau dinesig. Felly mae cryn waith i'w wneud, ond yn y fan honno mae'r her, mi gredaf."

## 6. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2017/18

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18, oedd yn ymestyniad blwyddyn o Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013 - 17 a hefyd yn pontio'r cyfnod rhwng y Cynllun Strategol a'r cynllun newydd a fydd yn cael ei baratoi a'i fabwysiadu gan y Cyngor a fydd yn cael ei ethol ym mis Mai.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod arian wedi'i glustnodi yn y gyllideb fel ymrwymiad ar gyfer ariannu'r cynlluniau i wella hynny sydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau.
- Sylwyd bod canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol wedi gostwng o 40.42% yn 2014/15 i 38% yn 2015/16 a gofynnwyd am ymroddiad bod y Cyngor yn gwario'n fwy lleol yn hytrach nag yn mynd allan o'r sir am waith. Mewn ymateb, eglurwyd bod mesurydd eithaf llym yn cael ei ddefnyddio i fesur y gwariant ond bod gwaith ar droed i geisio newid hynny a bod gwaith yn parhau hefyd i gynyddu'r gwariant yn lleol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18.**

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TÂL Y CYNGOR 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2017/18. Nodwyd bod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion wedi ystyried y Polisi Tâl yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2017 ac yn argymell i'r Cyngor ei fabwysiadu.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd a oedd modd ail-edrych ar y polisi o beidio eithrio cyn-swyddogion, a dderbyniodd daliadau diswyddo, ar sail gormodedd neu bensiwn, rhag cael eu hail gyflogi. Atebodd y Prif Weithredwr fod bwriad i wneud hynny yn y Cyngor newydd.
- Codwyd cwestiwn ynglŷn ag ariannu codiad o 7% yng nghyflogau prif swyddogion. Atebodd y Prif Weithredwr nad oedd a wnelo unrhyw godiad cyflog flynyddoedd yn ôl â'r Polisi Tâl cyfredol ond bod croeso i'r aelod ddod i drafod ymhellach gydag ef ar ôl y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i'r Cyngor fabwysiadu'r drafft o Ddatganiad Polisi Tâl ar gyfer 2017/18 yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**8. CYLLIDEB 2017-18 A STRATEGAETH ARIANNOL 2017/18 - 2019/20**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau:-

- Adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2017/18.
- Atodiad yn manylu ar faterion i'w hystyried wrth sefydlu'r gyllideb, ynghyd â'r strategaeth tymor-canol.
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 2.8%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Nododd yr Aelod Cabinet fod y drefn o sefydlu Strategaeth Ariannol y Cyngor wedi bod yn drefn gynhwysol o gydweithio a diolchodd i'r Prif Weithredwr, yr Uned Ymchwil, y Pennaeth Cyllid a staff yr Adran Gyllid am eu cydweithrediad dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod y Cyngor wedi cymeradwyo gwario arian dan eitemau 6 a 7 uchod, ond yn penderfynu codi arian yma. Atebodd y Pennaeth Cyllid fod y penderfyniadau hynny yn golygu symud ymlaen â materion oedd eisoes yn y gyllideb.
- Bod arbedion effeithlonrwydd yn golygu lleihad yn nifer y staff sy'n golygu na all cynghorwyr gael gafael ar neb i basio cwynion ymlaen. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet nad oedd arbedion effeithlonrwydd yn doriadau a bod modd cynnal gwasanaeth yn fwy effeithiol heb dorri staff. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid, yn sgil yr arbedion effeithlonrwydd a'r toriadau a gymeradwywyd eisoes, ei bod yn rhesymol cynhyrchu tua £1m o arbedion effeithlonrwydd pellach er mwyn cadw'r dreth ar y lefel sy'n cael ei argymell ac na fyddai'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn cael effaith ar y trethdalwyr.
- Bod y penderfyniad i wneud i ffwrdd â'r swyddog anabledd wedi cael effaith.
- Bod trethdalwyr Môn a Cheredigion yn talu llai na threthdalwyr Gwynedd, ac er y croesawid y ffaith bod Gwynedd wedi derbyn y setliad gorau yng Nghymru eleni, 'roedd hon yn sir dlawd iawn a byddai'r codiad yn anodd iawn i bobl sydd eisoes yn cael anhawster cael deupen llinyn ynghyd.
- Y byddai cyfyngu'r cynnydd yn y dreth i 1.5% yn dod â Gwynedd yn agosach at Fôn a chymdogion eraill. Nodwyd hefyd bod lefel chwyddiant yn is na 2% erbyn hyn.
- Bod pwysau hefyd ar gynghorau cymuned a thref a'r Awdurdod Heddlu i godi eu trethi a bod cynnydd o 2.8% yn rhesymol iawn.
- Bod y toriadau o £4.3m yn y maes addysg yn taro'r sector cynradd sy'n golygu bod plant yn symud i fyny i'r uwchradd heb gyrraedd y safon ddisgwyliedig a bod hynny, yn ei dro, yn golygu mwy o waith gyda llai o adnoddau.
- Bod pobl yn gweld eu hunain yn talu mwy am lai o wasanaethau.
- Bod y dreth ar dŷ Band D yng Ngwynedd yn ddrutach na thŷ Band D yng Nghaerdydd a Gwynedd oedd y 6ed uchaf yn 2016.
- Y byddai 2% yn unig o godiad yn y dreth yn golygu lleihad o £13 y flwyddyn i drigolion Band D ac £1.47m o incwm yn lle £2.06m. Byddai gan y Cyngor £5m o falansau ar ddiwedd Mawrth a gellid defnyddio £0.5m o'r balansau hynny i falansio'r gyllideb. Mewn ymateb, eglurodd y Prif Weithredwr fod angen cynnydd o 2.8% i gyfarch y bwlch ac y byddai ariannu o falansau am eleni yn golygu y byddai'n rhaid dod o hyd i £0.5m o arbedion ychwanegol y flwyddyn nesaf ar ben y £1m sydd eisoes wedi'i ddarganfod.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynyddu'r dreth cyngor 2% gan ddefnyddio £0.5m o falansau i bontio'r bwlch a bod yr arbedion ychwanegol angenrheidiol yn cael eu darganfod y flwyddyn nesaf.

Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'r gwelliant yn golygu ariannu bwlch parhaol allan o falansau un-tro, ac felly'n groes i egwyddorion cynllunio ariannol cryf, a barn Swyddfa Archwilio Cymru ar hynny, fel y'i cyflwynwyd yn rhan 8.6 o'r adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd:-

- Bod cynghorau cymuned yn codi trethi ychwanegol er mwyn gwneud iawn am fethiant y Cyngor hwn i ddarparu'r gwasanaethau maent eu hangen a bod cynnydd o 2.8% yn dyblu'r gosb ar ein cymunedau.
- Y byddai'n well cadw at gynnydd o 2% yn unig nes y bydd yn hysbys faint o doriadau mae'r cymunedau yn mynd i'w hwynebu a faint o dreth y bydd yn rhaid i gynghorau cymuned ei godi i wneud iawn am y toriadau hynny.
- Y croesawyd penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo £275,000 tuag at adfer y swyddfeydd addysg yn yr ardaloedd, ond siom oedd deall bod disgwyl i'r Adran Addysg ganfod arbedion erbyn 2020 i wneud iawn am hynny.
- Bod y penderfyniad i rewi unrhyw doriad ar ysgolion uwchradd i'w groesawu, ond dylid sicrhau bod yr ysgolion yn cael ad-daliad o'r cyfraniad o £1,000 a wnaed gan bob un ohonynt o'u cyllidebau tua 8-9 mlynedd yn ôl i gadw Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon â'i phen uwchben y dŵr.
- Y pryderid am y bobl hynny sydd ar gyflogau isel, ond yn anghymwys am fudd-dal, a holwyd a fyddai methiant pobl o'r fath i dalu'r dreth gyngor yn fwy costus i'r Cyngor yn y pen draw.
- Nad ar lawr y Cyngor oedd y lle i gyflwyno cyllideb wahanol a bod peryg' meddwl bod rhaid cynnig llai o gynnydd na'r hyn sy'n cael ei argymell.
- O gymeradwyo'r argymhelliad, gellid dweud wrth bobl na fydd rhagor o doriadau ac y bydd yna chwystrelliad o arian i gynorthwyo ysgolion uwchradd. Byddai'r cynnydd o 2.8% hefyd yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i warchod gwasanaethau a sicrhau buddsoddiad i'r gwasanaethau yn ogystal.
- Y dylid cadw at y strategaeth a pheidio rhoi penderfyniad anodd i rywun arall y flwyddyn nesaf.
- Bod cynnig tynnu allan o falansau yn dôn gron bob blwyddyn ac na ellid parhau i dynnu £0.5m bob blwyddyn o falansau.
- Nad oedd yn deg cymharu sefyllfa Gwynedd gyda Môn a Chaerdydd gan fod angen mwy o bobl i wneud yr un gwaith yng Ngwynedd oherwydd y demograffi.
- Bod defnyddio balansau i ariannu cyllideb refeniw yn creu problem ar gyfer y dyfodol.
- Bod lleihau'r cynyddu'r yn y dreth yn golygu toriadau mewn meysydd fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cael ardrawiad ar yr hen a'r ifanc.
- Nad yw cynyddu'r dreth yn effeithio ar y tlotaf o fewn cymdeithas gan nad ydynt yn talu'r dreth beth bynnag, ond mae torri'r gwasanaethau yn cael effaith sylweddol ar y bobl hynny.
- Nad oedd pob cyngor cymuned yn cynyddu lefel y dreth.
- Y byddai'n well codi'r dreth 2.8% yn awr na gorfod gwneud cynnydd llawer uwch ymhellach ymlaen.
- Bod y bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn cynyddu ac nad oedd y dreth treth cyngor yn helpu.
- Bod y gwelliant yn galluogi i'r Cyngor edrych ar y sefyllfa gyda llygaid newydd y flwyddyn nesaf.
- Bod angen gweithio'n galed i gadw'r dreth i lawr.

Cyn pleidleisio ar y gwelliant, esboniodd y Prif Weithredwr beth oedd goblygiadau'r hynny, gan nodi:-

- Bod arbedion effeithlonrwydd ychwanegol o £2.96m ar drac i'w cyflawni yn 2018/19, yn unol â gofynion y strategaeth tymor canolig, ond bod dal angen darganfod £3.7m arall ar gyfer 2018/19.

- Petai angen i'r Cyngor newydd ddarganfod yr arian hynny, byddai'n rhaid iddynt fynd yn ôl at y rhestr toriadau, ac fel esiampl o'r pris o beidio cynyddu'r dreth gyngor yn ddigonol eleni, cyfeiriodd at y 4 eitem nesaf ar y rhestr fyddai'n creu £0.5m o doriadau, sef cau Neuadd Dwyfor, lleihau 10% ar y gyllideb cludiant cyhoeddus, cau 8 canolfan ailgylchu a chau 2 ganolfan hamdden (neu gellid dewis 4 eitem is ar y rhestr, ond gwaeth ym marn pobl Gwynedd).
- Petai'r llywodraeth yn torri grant y Cyngor yn fwy na'r disgwyl erbyn 2018/19, yn ôl y rhagolwg gwaethaf, byddai angen darganfod £7.3m o arbedion, sef £3.6m yn fwy o arbedion y flwyddyn nesaf. Byddai tynnu £0.5m pellach allan o'r lefel balansau a adroddir yn yr adroddiad yn ei gwneud yn anodd prynu amser i gwrdd â'r sefyllfa waethaf wrth osod cyllideb 2018/19, gan greu risg sylweddol uwch y flwyddyn nesaf.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant i gynyddu'r dreth gyngor 2% ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol i gynyddu'r dreth gyngor 2.8% ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**

1. **Sefydlu cyllideb o £231,299,720 ar gyfer 2017/18, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £168,963,540 a £62,336,180 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.8%.**
2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £12.015m yn 2017/18 a £6.410m yn 2018/19 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.3 o'r adroddiad.**
3. **Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 22 Tachwedd 2016, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

   **(a) 50,232.22 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

   **(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **521.73** | **Llanddeiniolen** | **1,797.37** |
| **Aberdyfi** | **915.28** | **Llandderfel** | **484.05** |
| **Abergwyngregyn** | **116.25** | **Llanegryn** | **155.92** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,089.22** | **Llanelltyd** | **277.33** |
| **Arthog** | **603.52** | **Llanengan** | **1,955.12** |
| **Y Bala** | **759.58** | **Llanfair** | **306.45** |
| **Bangor** | **3,752.56** | **Llanfihangel y Pennant** | **207.70** |
| **Beddgelert** | **314.22** | **Llanfrothen** | **215.74** |
| **Betws Garmon** | **132.87** | **Llangelynnin** | **392.62** |
| **Bethesda** | **1,656.05** | **Llangywer** | **135.09** |
| **Bontnewydd** | **433.54** | **Llanllechid** | **334.49** |
| **Botwnnog** | **430.29** | **Llanllyfni** | **1,385.04** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **403.86** | **Llannor** | **897.86** |
| **Bryncrug** | **333.65** | **Llanrug** | **1,128.07** |
| **Buan** | **221.19** | **Llanuwchllyn** | **306.73** |
| **Caernarfon** | **3,467.91** | **Llanwnda** | **766.22** |
| **Clynnog Fawr** | **440.58** | **Llanycil** | **195.26** |
| **Corris** | **291.48** | **Llanystumdwy** | **856.31** |
| **Cricieth** | **916.60** | **Maentwrog** | **272.30** |
| **Dolbenmaen** | **585.70** | **Mawddwy** | **333.19** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dolgellau | 1,190.95 | Nefyn | 1,380.07 |
| Dyffryn Ardudwy | 773.53 | Pennal | 216.03 |
| Y Felinheli | 1,122.95 | Penrhyndeudraeth | 760.14 |
| Ffestiniog | 1,687.96 | Pentir | 1,067.54 |
| Y Ganllwyd | 78.91 | Pistyll | 243.50 |
| Harlech | 747.37 | Porthmadog | 1,947.97 |
| Llanaelhaearn | 429.82 | Pwllheli | 1,713.23 |
| Llanbedr | 313.90 | Talsarnau | 306.91 |
| Llanbedrog | 677.91 | Trawsfynydd | 499.78 |
| Llanberis | 769.47 | Tudweiliog | 444.98 |
| Llandwrog | 996.86 | Tywyn | 1,552.99 |
| Llandygai | 964.62 | Waunfawr | 555.89 |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**4. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

**(a) £347,986,230** — **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).**

**(b) £114,986,280** — **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).**

**(c) £232,999,950** — **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).**

**(ch) £168,668,537** — **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.**

**(d) £1,280.68** — **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).**

**(dd) £1,995,230** — **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).**

**(e) £1,240.96** — **Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes**

**unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).**

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **1,265.88** | **Llanddeiniolen** | **1,252.09** |
| **Aberdyfi** | **1,275.39** | **Llandderfel** | **1,263.68** |
| **Abergwyngregyn** | **1,262.47** | **Llanegryn** | **1,273.03** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,288.70** | **Llanelltyd** | **1,268.00** |
| **Arthog** | **1,256.29** | **Llanengan** | **1,266.53** |
| **Y Bala** | **1,269.92** | **Llanfair** | **1,270.33** |
| **Bangor** | **1,336.01** | **Llanfihangel y Pennant** | **1,292.74** |
| **Beddgelert** | **1,268.65** | **Llanfrothen** | **1,267.84** |
| **Betws Garmon** | **1,260.53** | **Llangelynnin** | **1,260.83** |
| **Bethesda** | **1,276.28** | **Llangywer** | **1,270.57** |
| **Bontnewydd** | **1,276.71** | **Llanllechid** | **1,263.38** |
| **Botwnnog** | **1,252.58** | **Llanllyfni** | **1,270.10** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **1,255.82** | **Llannor** | **1,257.84** |
| **Bryncrug** | **1,276.93** | **Llanrug** | **1,268.44** |
| **Buan** | **1,257.91** | **Llanuwchllyn** | **1,273.56** |
| **Caernarfon** | **1,298.20** | **Llanwnda** | **1,271.24** |
| **Clynnog Fawr** | **1,268.20** | **Llanycil** | **1,261.45** |
| **Corris** | **1,265.91** | **Llanystumdwy** | **1,258.48** |
| **Cricieth** | **1,278.05** | **Maentwrog** | **1,262.75** |
| **Dolbenmaen** | **1,258.03** | **Mawddwy** | **1,264.97** |
| **Dolgellau** | **1,286.30** | **Nefyn** | **1,284.86** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **1,279.41** | **Pennal** | **1,268.73** |
| **Y Felinheli** | **1,272.13** | **Penrhyndeudraeth** | **1,285.69** |
| **Ffestiniog** | **1,329.82** | **Pentir** | **1,282.18** |
| **Y Ganllwyd** | **1,275.18** | **Pistyll** | **1,275.87** |
| **Harlech** | **1,265.71** | **Porthmadog** | **1,269.53** |
| **Llanaelhaearn** | **1,299.12** | **Pwllheli** | **1,282.99** |
| **Llanbedr** | **1,286.18** | **Talsarnau** | **1,289.83** |
| **Llanbedrog** | **1,266.04** | **Trawsfynydd** | **1,272.97** |
| **Llanberis** | **1,266.95** | **Tudweiliog** | **1,254.44** |
| **Llandwrog** | **1,282.09** | **Tywyn** | **1,296.34** |
| **Llandygai** | **1,262.32** | **Waunfawr** | **1,262.55** |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar**

**gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

5. **Nodi ar gyfer y flwyddyn 2017/18 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 166.14 | 193.83 | 221.52 | 249.21 | 304.59 | 359.97 | 415.35 | 498.42 | 581.49 |

6. **Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2017/18 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 9. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaethau arfaethedig.

Nodwyd y cyflwynwyd y strategaethau i'r Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror, lle eglurwyd a derbyniwyd y cynigion yn gyffredinol, ymhellach i gwestiynau gan aelodau, ac y penderfynodd y Pwyllgor hwnnw argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaethau.

Diolchodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i gwmni Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, am eu heglurhad clir o'r gwahanol risgiau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2017/18 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B) a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys (Atodiad C).**

## 10. PŴL BUDDSODDI CYMRU – CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau adroddiad yn:-

- Nodi cefndir y trefniadau pŵl buddsoddiadau ar draws yr wyth Cronfa Bensiwn Awdurdod Lleol yng Nghymru a'r angen i ymrwymo'n ffurfiol i gytundeb rhwng y cronfeydd i sefydlu trefniadau gweinyddol a llywodraethol i reoli'r trefniadau pŵl.
- Argymell Cytundeb Rhyng-Awdurdodau i'r Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad, ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid ar rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Pensiynau yn sgil sefydlu'r Cyd-bwyllgor newydd.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn:-**

1. **Nodi cynnwys y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau (IAA) drafft sydd wedi'i amgáu yn Atodiad A i'r adroddiad ac yn dirprwyo caniatâd i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, i gymeradwyo a gweithredu fersiwn terfynol yr IAA.**
2. **Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor (y cyfeirir ato o hyn allan fel y Cyd-bwyllgor Llywodraethu) wedi cwblhau'r IAA y cyfeirir ato yn argymhelliad 1 uchod ac ar sail y cylch gorchwyl sydd ynghlwm.**

3. **Dirprwyo gweithrediad rhai swyddogaethau penodol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel y nodir yn y cylch gorchwyl ac yn nodi'r swyddogaethau hynny sydd wedi'u cadw i'r Cyngor.**
4. **Cymeradwyo penodi Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau neu ei D(d)irprwy a enwebir gan y Pwyllgor Pensiynau i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel cynrychiolydd Cyngor Gwynedd.**
5. **Ble cyfyd gofyn penodol er rhoi effaith i delerau'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau dirprwyo i gynrychiolydd enwebedig awdurdod Cyngor Gwynedd i weithredu o fewn cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Llywodraethu er mwyn galluogi gweithredu unrhyw swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo.**
6. **Cymeradwyo bod Cyngor Sir Gâr (Cronfa Bensiwn Dyfed) yn gweithredu fel Cyngor Lletya gyda'r cyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau.**
7. **Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, i gytuno unrhyw fân addasiadau pellach i'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau.**

## 11. ADOLYGIAD O'R DREFN GRAFFU

Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno argymhellion y Pwyllgor Archwilio ar fodel craffu newydd ar gyfer Mai 2017.

Gosodwyd y cyd-destun gan y Dirprwy Arweinydd cyn i Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio gyflwyno'r argymhelliad yn absenoldeb Cadeirydd y pwyllgor.

Awgrymwyd y dylid adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn ymhen blwyddyn ar lwyddiannau / methiannau'r drefn graffu newydd, pa fodel bynnag sy'n cael ei fabwysiadu.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn o blaid Opsiwn 1 (model un prif bwyllgor craffu):-

- Aelodaeth y pwyllgor yn cymryd y trosolwg ac yn sicrhau bod y materion craffu yn bethau sydd wir angen eu craffu.
- Y pwyllgor yn cyfarfod i gyd-fynd â chyfarfodydd y Cabinet er mwyn dilyn trywydd penderfyniadau'r Cabinet ac yn trafod gyda'r Aelodau Cabinet.
- Y pwyllgor yn gallu sicrhau bod yr ymchwiliadau wedi gwneud eu gwaith yn drylwyr.
- Y balans o ran meysydd yn cael ei benderfynu gan y pwyllgor craffu felly gall roi pwyslais ar ba faterion mae'n dymuno.
- Yn chwalu silos a'r sylw sydd ei angen yn cael ei roi i bob adran o'r Cyngor.
- Cynghorwyr yn dod i ddeall yn well sut mae'r Cyngor yn gweithio yn ei gyfanrwydd.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn o blaid Opsiwn 2 (model tri phwyllgor craffu):-

- Yn rhannu'r baich yn hytrach nag yn rhoi'r pwysau i gyd ar un prif bwyllgor craffu fydd hefyd yn atebol am yr holl ymchwiliadau craffu.
- Yn gwahanu'r meysydd Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd gyda'i gilydd yn gyfrifol am 80% o wariant y Cyngor.
- Yn haws sicrhau craffu o werth drwy gael gwell gafael ar bynciau.
- Y model un pwyllgor craffu yn ddim mwy na chabinet cysgodol heb y cyfrifoldeb.
- Yn amhosib' i un pwyllgor o 15 aelod roi trosolwg o bob dim ar draws y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y Cyngor yn mabwysiadu model tri phwyllgor craffu. Gan fod canlyniad y bleidlais ar y gwelliant yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw o blaid y gwelliant. O ganlyniad,'roedd y gwelliant wedi cario.

**PENDERFYNWYD**

1. **Symud i'r model tri phwyllgor craffu sy'n cael ei ddangos yn Atodiad 2 i'r adroddiad gyda'i fanteision ac anfanteision fel y model gorau ar gyfer y Cyngor newydd.**
2. **Mabwysiadu argymhellion (a) i (f) ym mharagraffau 9.1 i 9.5 o'r adroddiad, sef:-**
   - **(a) Sefydlu trefn o sesiynau trafod rheolaidd.**
   - **(b) Bod y rhaglen waith am y flwyddyn yn cynnwys cyfran uwch eto o faterion sydd yn cael eu craffu ymlaen llaw.**
   - **(c) Y dylid cael trefn lle mae Aelodau Cabinet yn gwahodd aelodau craffu atynt i wneud gwaith penodol ar ddatblygu polisïau.**
   - **(ch) Bod y Tîm Arweinyddiaeth yn edrych yn rheolaidd gyda'r craffwyr ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor.**
   - **(d) Bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gyfiawnhau pam bod mater yn cael ei graffu.**
   - **(dd) Cyflwyno syniad newydd o drefn "Gwyntyllu".**
   - **(e) Bod y peilot craffu perfformiad yn dod yn rhan o drefniadau rheolaidd y Cyngor.**
   - **(f) Bod y Cyngor yn canfod yn fuan beth yw meysydd diddordeb a sgiliau aelodau unigol.**
3. **Bod y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn argymell addasiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad er gweithredu penderfyniad y Cyngor.**

## 12. CALENDR PWYLLGORAU 2017/18

Tynnwyd yr eitem hon yn ei hôl gan fod y calendr wedi'i seilio ar fodel un pwyllgor craffu, sef argymhelliad gwreiddiol y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor, a chytunwyd i gyflwyno calendr diwygiedig i'r Cyngor Blynyddol ar 18 Mai ar sail y model tri phwyllgor craffu.

## 13. PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a baratowyd ganddo ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r drefn a argymhellir yn yr adroddiad ar gyfer penodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Cwestiynodd aelod bwrpas y swyddogaeth ond eglurodd y Swyddog Monitro ei bod yn ofynnol cael o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drefn a argymhellir yn yr adroddiad ar gyfer penodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio.**

## 14. PAPUR GWYN – LLYWODRAETH LEOL – CADERNID AC ADNEWYDDIAD

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i ystyried ac addasu sylwadau drafft a baratowyd fel sail i ymateb y Cyngor i brif gynigion a chwestiynau Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod morâl yn isel yn y cynghorau cymuned o ganlyniad i orfod derbyn mwy o gyfrifoldebau gan y Cyngor hwn. Atebodd yr Arweinydd fod y Papur Gwyn yn cyfeirio at yr angen i ymateb i'r newid yn sefyllfa cynghorau tref a chymuned ac i wneud gwaith pellach er mwyn gweld pa strwythur o gynghorau cymuned fydd ei angen i'r dyfodol er mwyn bod yn addas i ymdopi â'r cyd-destun newydd.

- Bod y Papur Gwyn yn rhoi popeth i bawb, ond o fynd dan yr wyneb, gwelir arwyddion cryf o ganoli gwasanaethau i ranbarth Gogledd Cymru. Mae'r cwestiynau sydd wedi'u gosod yn ymwneud â phethau ymylol sy'n hawdd eu hateb, ond dylid gofyn beth yw pwrpas awdurdod lleol a lle mae'r egwyddor ddemocrataidd a'r atebolrwydd o fynd â phethau oddi wrth y cynghorau i ryw gorff rhanbarthol? Hefyd, mae yna ddryswch partneriaethau ar draws y Gogledd sydd bron yn amhosib' i'w ddeall. Pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn lle a phryd a phwy sydd yn eu craffu? Mae'n beryg' na fydd gan Gyngor Gwynedd fawr i'w wneud ymhen 10 mlynedd. Byd popeth wedi mynd i rywle arall a beth fydd effaith hynny ar ein polisi iaith?
- Bod angen gwneud sylwadau cyffredinol cryf yn mynegi pryder ynglŷn â'r daith sy'n cychwyn yma i ganoli gwasanaethau i lefel rhanbarth Gogledd Cymru. Mae hefyd yn mynd yn groes i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd wedi'u sefydlu gan ddeddfwriaeth arall a beth fydd rôl rheini wedyn? Mae perygl dyblygu gwaith ac mae'r sefyllfa'n ddryslyd iawn.
- Os gwahardd Aelodau Cynulliad rhag sefyll fel cynghorwyr, rhagdybir na fyddai'n bosib' i gynghorwyr sefyll fel Aelodau Cynulliad chwaith. Gwelwyd unigolion yn gwasanaethu fel cynghorwyr tra'n Aelodau Cynulliad yn y gorffennol ac nid penodiad i'r ddwy swydd yn atal unigolyn rhag cyflawni'r gwaith yn llawn.
- Nid yw'r Papur yn cyfarch y rheol 6 mis ac mae angen tynhau ar hynny.
- Mae'r ddogfen yn codi amheuaeth ynglŷn â gweithredu rhanbarthol. Mae sôn am Gwe yma, er enghraifft, a gwerth hynny ar ddiwedd y dydd. Mae sôn yma am rôl cynghorwyr a chwestiynwyd a fyddai symud i fodel rhanbarthol yn ei gwneud yn fwy anodd ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Mae sôn y dylai cynghorau eu hunain benderfynu ar eu trefn bwyllgorau eu hunain, ac mae hynny i'w ganmol. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd iddo ddadlau dros ad-drefnu ar sail llinellau cadarn, ond nad oedd yn rhannu'r un brwdfrydedd dros ad-drefnu sy'n ymddangos yn llac ac yn niwlog gyda diffyg atebolrwydd. Nododd hefyd ei bod yn rhyfedd fod materion fel trefn bwyllgorau a system bleidleisio yn ddewisol o fewn deddfwriaeth.
- Bod deddfwriaeth niwlog, sydd ddim yn plethu at ei gilydd yn ei gwneud yn fwy anodd gweithredu fel cynghorydd ac i'r cyhoedd ddeall pwy sy'n gyfrifol. Mae pwyllgorau rhanbarthol yn bell i ffwrdd oddi wrth y cyhoedd. Nid yw'r holl beth yn cyd-blethu. Mae'r holl argymhellion gwahanol wedi eu rhoi at ei gilydd yn flêr ac yn llac.
- Y man cychwyn ddylai fod y cwestiwn o rôl llywodraeth leol yn yr unfed ganrif ar hugain ac nid oes neb yn edrych ar hynny.
- Bod yr holl bwerau wedi eu dwyn oddi ar lywodraeth leol gan adael y cynghorau gyda llawer o gyfrifoldebau, ond fawr ddim pwerau. Petai'r pwerau yma'n cael eu trosglwyddo yn ôl, ni fyddai'n rhaid i gynghorau feddwl am rannu gwasanaethau oherwydd byddai digon o bwrpas i'w bodolaeth. Hefyd, mae tueddiad i gredu bod yr ateb i'w gael ar y brig, yn hytrach nag ar y gwaelod.
- Bod cynghorwyr yn gwasanaethu ar gyrff rhanbarthol fel aelodau o'r bwrdd, yn hytrach nag fel aelodau o Gyngor Gwynedd, ac yn gwneud penderfyniadau ar ran y bwrdd. Nid democratiaeth yw hynny.
- Nad yw'r Papur Gwyn yn cyfarch y sefyllfa lle mae unigolion yn twyllo'r etholwyr drwy newid pleidiau ar ôl cael eu hethol ar y Cyngor. Atebodd yr Arweinydd fod y Papur Gwyn, at ei gilydd, yn ymwneud â strwythurau llywodraeth leol, yn hytrach na'r drefn o ethol neu delerau gwasanaethu cynghorwyr, ond y gellid cynnwys sylw o'r fath os mai dyna'r dymuniad.

**PENDERFYNWYD derbyn y sylwadau drafft fel sail i ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyn – Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad.**

**15. ADRODDIAD ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a

gynhyrchwyd yn unol â gofyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Law yn llaw â hyn, er mwyn ymateb i'r gofynion deddfwriaethol yn llawn, ac yn unol ag argymhelliad y Cabinet (14 Chwefror 2017), byddai angen sicrhau bod fersiwn benodol i Wynedd o'r Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cael ei chynhyrchu'n fuan.

Cwestiynwyd cywirdeb y rhagolygon poblogaeth oedd yn darogan cynnydd yng Ngwynedd ond gostyngiad ar Ynys Môn oherwydd, petai Wylfa B yn dod, byddai poblogaeth yr ynys yn cynyddu'n sylweddol. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad yn asesiad blynyddol o anghenion blynyddol, ac wrth i amser fynd ymlaen a gwybodaeth ddod yn fwy eglur, byddai'r cynnwys yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a gynhyrchwyd yn unol â gofyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**16. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL GWYNEDD 2016/17**

Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden, cyflwynodd yr Aelod Cabinet Addysg adroddiad blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol oedd yn amlygu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor i weithredu fel rhieni corfforaethol i blant mewn gofal, yn rhannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn 2016/17 ac yn amlinellu bwriadau'r panel ar gyfer y dyfodol.

Gofynnwyd i'r panel ystyried sefydlu gweithgor i edrych ar effaith diwygiadau lles ar y niferoedd plant sy'n dod i ofal. Cytunodd yr Aelod Cabinet fod y ffigurau wedi codi rhywfaint ond pwysleisiodd y byddai'r cynnydd wedi bod yn llawer uwch heb ymdrechion y Tïm Trothwy Gofal i atal plant rhag dod i mewn i ofal.

**17. ADOLYGIAD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad yn ceisio caniatâd gan y Cyngor i swyddogion weithredu ar lunio cynigion drafft ar gyfer y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn y cyfnod cyn yr etholiad er mwyn cwrdd ag amserlen heriol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd a fyddai yna ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned a thref cyn yr etholiad. Atebodd y Prif Weithredwr mai diwedd Mai oedd y dyddiad cau am sylwadau i bawb, ac eithrio'r Cyngor hwn. Petai'r cynghorau cymuned yn dymuno cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn, 'roedd yn bwysig eu bod yn gwneud hynny a byddai'n fuddiol pe byddent yn anfon copi o'u sylwadau at y Cyngor hwn hefyd. Pe dymunai'r cynghorau cymuned weld cynigion drafft y Cyngor hwn yn gyntaf, byddai'n rhaid iddynt aros tan ddechrau Mai. Gan hynny, byddai'n eu cynghori i gyfarfod ym mis Mai, ond awgrymodd fod yr aelod yn dod i'w weld os oedd am gael eglurhad pellach.
- Holwyd a fyddai'r adolygiad yn cynnwys trethdalwyr hefyd gan fod yna fwy o drethdalwyr nag o etholwyr mewn nifer o ardaloedd. Atebodd y Prif Weithredwr ei fod yn sicr bron na fyddai trethdalwyr fel y cyfryw yn cyfri'.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chost yr adolygiad hwn a hefyd y Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, nododd y Prif Weithredwr y gallai wneud ymholiadau, ond mai'r llywodraeth, yn hytrach na'r Cyngor, fyddai'n ysgwyddo'r gost.
- Awgrymwyd nad oedd y Comisiwn yn deall daearyddiaeth y sir hon. Atebodd y Prif Weithredwr mai dyna pam ei bod yn bwysig bod y Cyngor hwn yn rhoi ei sylwadau ymlaen.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol er mwyn cynnig cynigion i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o fewn amserlen arfaethedig i'w gytuno gyda hwy, gan ddilyn y camau a nodir isod er mwyn gweithredu fel a ganlyn:-**

- **Cyfnod cyn etholiad: swyddogion i greu cynigion drafft ac ymgynghori (lle bo'r angen a lle mae modd oherwydd yr amserlen) gydag aelodau a chynghorau cymuned perthnasol.**
- **Rhannu'r cynigion drafft gyda holl aelodau'r Cyngor newydd yn dilyn yr etholiad.**
- **Y Pwyllgor Archwilio (fel y corff sy'n gyfrifol am lywodraethu) i edrych ar y cynigion a'r sylwadau gan aelodau ac i benderfynu ar yr argymhellion drafft i'w cyflwyno i'r Cyngor.**
- **Y Cyngor Llawn ym Mehefin 2017 i benderfynu ar y cynigion i'w cyflwyno i'r Comisiwn.**

**18. RHYBUDDION O GYNNIG**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Lesley Day o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd:-

**"Mae sawl rhan o Wynedd yn dioddef yn sgil problemau a achosir gan bobl sy'n mynnu gwaredu eu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir. Mae gwastraff a ellir ei ailgylchu yn cael ei anfon i dirlenwi a biniau gorlawn yn cael eu gadael allan ar y pafin. Mae llygod mawr a gwylanod yn gwasgaru'r gwastraff ymhellach. Mae ein swyddogion diwyd a'r casglwyr sbwriel yn gweithio'n hynod o galed i ddelio â'r llanast ond ni allant ymdopi â maint y broblem. Mae canlyniad hyn yn beryglus i iechyd a'r amgylchedd. Yn y pendraw, bydd costau aruthrol i'r Cyngor os ydym yn methu cyrraedd ein targedau ailgylchu. Ond eto mae'r drwgweithredwyr yn osgoi unrhyw gosb. Nid oes neb yn cael ei ddirwyo na'i gosbi.**

**Galwaf ar y Cyngor i ofyn i'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ystyried cyflwyno cosb effeithiol fel mater o flaenoriaeth ac y dylai'r mater gael ei adolygu gan Bwyllgor Craffu erbyn mis Rhagfyr 2017."**

Mewn ymateb i'r cynnig, nododd yr Aelod Cabinet Amgylchedd:-

- Bod rhaid bod yn ofalus iawn cyn cyflwyno dirwy neu gosb gan fod yna bobl sy'n oedrannus ac yn anghofus, neu ddim yn deall y system.
- Bod gan y Cyngor hawl i ddirwyo pobl am roi'r deunydd anghywir yn y biniau anghywir neu am roi'r biniau allan ar y dyddiau anghywir, ond bod rhaid ystyried goblygiadau hynny i'r Cyngor.
- Y byddai'n awgrymu bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ei newydd wedd yn sefydlu ymchwiliad i'r mater fel un o'i swyddogaethau cyntaf.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Rhaid mynd i'r afael â'r broblem amgylcheddol hon sy'n creu risg i iechyd yn ogystal â risg ariannol i'r Cyngor.
- Bod pawb yn cael gwneud fel y mynnent ac nad oes cymhelliant i bobl wella.
- Bod y trefniadau casglu ysbwriel yn gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd ond bod angen adolygiad o'r system mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o gartrefi gan nad oes gan bobl ddigon o le i storio biniau a bocsys glas.
- Bod biniau cymunedol yn broblemus hefyd.
- Bod cwmnïau'n pecynnu bwydydd yn ormodol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 5.10 y.h.

**CADEIRYDD**

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 843.92 | 984.57 | 1,125.23 | 1,265.88 | 1,547.19 | 1,828.49 | 2,109.80 | 2,531.76 | 2,953.72 |
| Aberdyfi | 850.26 | 991.97 | 1,133.68 | 1,275.39 | 1,558.81 | 1,842.23 | 2,125.65 | 2,550.78 | 2,975.91 |
| Abergwyngregyn | 841.65 | 981.92 | 1,122.20 | 1,262.47 | 1,543.02 | 1,823.57 | 2,104.12 | 2,524.94 | 2,945.76 |
| Abermaw (Barmouth) | 859.13 | 1,002.32 | 1,145.51 | 1,288.70 | 1,575.08 | 1,861.46 | 2,147.83 | 2,577.40 | 3,006.97 |
| Arthog | 837.53 | 977.11 | 1,116.70 | 1,256.29 | 1,535.47 | 1,814.64 | 2,093.82 | 2,512.58 | 2,931.34 |
| Y Bala | 846.61 | 987.72 | 1,128.82 | 1,269.92 | 1,552.12 | 1,834.33 | 2,116.53 | 2,539.84 | 2,963.15 |
| Bangor | 890.67 | 1,039.12 | 1,187.56 | 1,336.01 | 1,632.90 | 1,929.79 | 2,226.68 | 2,672.02 | 3,117.36 |
| Beddgelert | 845.77 | 986.73 | 1,127.69 | 1,268.65 | 1,550.57 | 1,832.49 | 2,114.42 | 2,537.30 | 2,960.18 |
| Betws Garmon | 840.35 | 980.41 | 1,120.47 | 1,260.53 | 1,540.65 | 1,820.77 | 2,100.88 | 2,521.06 | 2,941.24 |
| Bethesda | 850.85 | 992.66 | 1,134.47 | 1,276.28 | 1,559.90 | 1,843.52 | 2,127.13 | 2,552.56 | 2,977.99 |
| Bontnewydd | 851.14 | 993.00 | 1,134.85 | 1,276.71 | 1,560.42 | 1,844.14 | 2,127.85 | 2,553.42 | 2,978.99 |
| Botwnnog | 835.05 | 974.23 | 1,113.40 | 1,252.58 | 1,530.93 | 1,809.28 | 2,087.63 | 2,505.16 | 2,922.69 |
| Brithdir & Llanfachreth | 837.21 | 976.75 | 1,116.28 | 1,255.82 | 1,534.89 | 1,813.96 | 2,093.03 | 2,511.64 | 2,930.25 |
| Bryncrug | 851.29 | 993.17 | 1,135.05 | 1,276.93 | 1,560.69 | 1,844.45 | 2,128.22 | 2,553.86 | 2,979.50 |
| Buan | 838.61 | 978.37 | 1,118.14 | 1,257.91 | 1,537.45 | 1,816.98 | 2,096.52 | 2,515.82 | 2,935.12 |
| Caernarfon | 865.47 | 1,009.71 | 1,153.96 | 1,298.20 | 1,586.69 | 1,875.18 | 2,163.67 | 2,596.40 | 3,029.13 |
| Clynnog Fawr | 845.47 | 986.38 | 1,127.29 | 1,268.20 | 1,550.02 | 1,831.84 | 2,113.67 | 2,536.40 | 2,959.13 |
| Corris | 843.94 | 984.60 | 1,125.25 | 1,265.91 | 1,547.22 | 1,828.54 | 2,109.85 | 2,531.82 | 2,953.79 |
| Criccieth | 852.03 | 994.04 | 1,136.04 | 1,278.05 | 1,562.06 | 1,846.07 | 2,130.08 | 2,556.10 | 2,982.12 |
| Dolbenmaen | 838.69 | 978.47 | 1,118.25 | 1,258.03 | 1,537.59 | 1,817.15 | 2,096.72 | 2,516.06 | 2,935.40 |
| Dolgellau | 857.53 | 1,000.46 | 1,143.38 | 1,286.30 | 1,572.14 | 1,857.99 | 2,143.83 | 2,572.60 | 3,001.37 |
| Dyffryn Ardudwy | 852.94 | 995.10 | 1,137.25 | 1,279.41 | 1,563.72 | 1,848.04 | 2,132.35 | 2,558.82 | 2,985.29 |
| Y Felinheli | 848.09 | 989.43 | 1,130.78 | 1,272.13 | 1,554.83 | 1,837.52 | 2,120.22 | 2,544.26 | 2,968.30 |
| Ffestiniog | 886.55 | 1,034.30 | 1,182.06 | 1,329.82 | 1,625.34 | 1,920.85 | 2,216.37 | 2,659.64 | 3,102.91 |
| Y Ganllwyd | 850.12 | 991.81 | 1,133.49 | 1,275.18 | 1,558.55 | 1,841.93 | 2,125.30 | 2,550.36 | 2,975.42 |
| Harlech | 843.81 | 984.44 | 1,125.08 | 1,265.71 | 1,546.98 | 1,828.25 | 2,109.52 | 2,531.42 | 2,953.32 |
| Llanaelhaearn | 866.08 | 1,010.43 | 1,154.77 | 1,299.12 | 1,587.81 | 1,876.51 | 2,165.20 | 2,598.24 | 3,031.28 |
| Llanbedr | 857.45 | 1,000.36 | 1,143.27 | 1,286.18 | 1,572.00 | 1,857.82 | 2,143.63 | 2,572.36 | 3,001.09 |
| Llanbedrog | 844.03 | 984.70 | 1,125.37 | 1,266.04 | 1,547.38 | 1,828.72 | 2,110.07 | 2,532.08 | 2,954.09 |
| Llanberis | 844.63 | 985.41 | 1,126.18 | 1,266.95 | 1,548.49 | 1,830.04 | 2,111.58 | 2,533.90 | 2,956.22 |
| Llandwrog | 854.73 | 997.18 | 1,139.64 | 1,282.09 | 1,567.00 | 1,851.91 | 2,136.82 | 2,564.18 | 2,991.54 |
| Llandygai | 841.55 | 981.80 | 1,122.06 | 1,262.32 | 1,542.84 | 1,823.35 | 2,103.87 | 2,524.64 | 2,945.41 |
| Llanddeiniolen | 834.73 | 973.85 | 1,112.97 | 1,252.09 | 1,530.33 | 1,808.57 | 2,086.82 | 2,504.18 | 2,921.54 |
| Llandderfel | 842.45 | 982.86 | 1,123.27 | 1,263.68 | 1,544.50 | 1,825.32 | 2,106.13 | 2,527.36 | 2,948.59 |
| Llanegryn | 848.69 | 990.13 | 1,131.58 | 1,273.03 | 1,555.93 | 1,838.82 | 2,121.72 | 2,546.06 | 2,970.40 |
| Llanelltyd | 845.33 | 986.22 | 1,127.11 | 1,268.00 | 1,549.78 | 1,831.56 | 2,113.33 | 2,536.00 | 2,958.67 |
| Llanengan | 844.35 | 985.08 | 1,125.80 | 1,266.53 | 1,547.98 | 1,829.43 | 2,110.88 | 2,533.06 | 2,955.24 |
| Llanfair | 846.89 | 988.03 | 1,129.18 | 1,270.33 | 1,552.63 | 1,834.92 | 2,117.22 | 2,540.66 | 2,964.10 |
| Llanfihangel y Pennant | 861.83 | 1,005.46 | 1,149.10 | 1,292.74 | 1,580.02 | 1,867.29 | 2,154.57 | 2,585.48 | 3,016.39 |
| Llanfrothen | 845.23 | 986.10 | 1,126.97 | 1,267.84 | 1,549.58 | 1,831.32 | 2,113.07 | 2,535.68 | 2,958.29 |
| Llangelynnin | 840.55 | 980.65 | 1,120.74 | 1,260.83 | 1,541.01 | 1,821.20 | 2,101.38 | 2,521.66 | 2,941.94 |
| Llangywer | 847.05 | 988.22 | 1,129.40 | 1,270.57 | 1,552.92 | 1,835.27 | 2,117.62 | 2,541.14 | 2,964.66 |
| Llanllechid | 842.25 | 982.63 | 1,123.00 | 1,263.38 | 1,544.13 | 1,824.88 | 2,105.63 | 2,526.76 | 2,947.89 |
| Llanllyfni | 846.73 | 987.86 | 1,128.98 | 1,270.10 | 1,552.34 | 1,834.59 | 2,116.83 | 2,540.20 | 2,963.57 |
| Llannor | 838.56 | 978.32 | 1,118.08 | 1,257.84 | 1,537.36 | 1,816.88 | 2,096.40 | 2,515.68 | 2,934.96 |
| Llanrug | 845.63 | 986.56 | 1,127.50 | 1,268.44 | 1,550.32 | 1,832.19 | 2,114.07 | 2,536.88 | 2,959.69 |
| Llanuwchllyn | 849.04 | 990.55 | 1,132.05 | 1,273.56 | 1,556.57 | 1,839.59 | 2,122.60 | 2,547.12 | 2,971.64 |
| Llanwnda | 847.49 | 988.74 | 1,129.99 | 1,271.24 | 1,553.74 | 1,836.24 | 2,118.73 | 2,542.48 | 2,966.23 |
| Llanycil | 840.97 | 981.13 | 1,121.29 | 1,261.45 | 1,541.77 | 1,822.09 | 2,102.42 | 2,522.90 | 2,943.38 |
| Llanystumdwy | 838.99 | 978.82 | 1,118.65 | 1,258.48 | 1,538.14 | 1,817.80 | 2,097.47 | 2,516.96 | 2,936.45 |
| Maentwrog | 841.83 | 982.14 | 1,122.44 | 1,262.75 | 1,543.36 | 1,823.97 | 2,104.58 | 2,525.50 | 2,946.42 |
| Mawddwy | 843.31 | 983.87 | 1,124.42 | 1,264.97 | 1,546.07 | 1,827.18 | 2,108.28 | 2,529.94 | 2,951.60 |
| Nefyn | 856.57 | 999.34 | 1,142.10 | 1,284.86 | 1,570.38 | 1,855.91 | 2,141.43 | 2,569.72 | 2,998.01 |
| Pennal | 845.82 | 986.79 | 1,127.76 | 1,268.73 | 1,550.67 | 1,832.61 | 2,114.55 | 2,537.46 | 2,960.37 |
| Penrhyndeudraeth | 857.13 | 999.98 | 1,142.84 | 1,285.69 | 1,571.40 | 1,857.11 | 2,142.82 | 2,571.38 | 2,999.94 |
| Pentir | 854.79 | 997.25 | 1,139.72 | 1,282.18 | 1,567.11 | 1,852.04 | 2,136.97 | 2,564.36 | 2,991.75 |
| Pistyll | 850.58 | 992.34 | 1,134.11 | 1,275.87 | 1,559.40 | 1,842.92 | 2,126.45 | 2,551.74 | 2,977.03 |
| Porthmadog | 846.35 | 987.41 | 1,128.47 | 1,269.53 | 1,551.65 | 1,833.77 | 2,115.88 | 2,539.06 | 2,962.24 |
| Pwllheli | 855.33 | 997.88 | 1,140.44 | 1,282.99 | 1,568.10 | 1,853.21 | 2,138.32 | 2,565.98 | 2,993.64 |
| Talsarnau | 859.89 | 1,003.20 | 1,146.52 | 1,289.83 | 1,576.46 | 1,863.09 | 2,149.72 | 2,579.66 | 3,009.60 |
| Trawsfynydd | 848.65 | 990.09 | 1,131.53 | 1,272.97 | 1,555.85 | 1,838.73 | 2,121.62 | 2,545.94 | 2,970.26 |
| Tudweiliog | 836.29 | 975.68 | 1,115.06 | 1,254.44 | 1,533.20 | 1,811.97 | 2,090.73 | 2,508.88 | 2,927.03 |
| Tywyn | 864.23 | 1,008.26 | 1,152.30 | 1,296.34 | 1,584.42 | 1,872.49 | 2,160.57 | 2,592.68 | 3,024.79 |
| Waunfawr | 841.70 | 981.98 | 1,122.27 | 1,262.55 | 1,543.12 | 1,823.68 | 2,104.25 | 2,525.10 | 2,945.95 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,010.06 | 1,178.40 | 1,346.75 | 1,515.09 | 1,851.78 | 2,188.46 | 2,525.15 | 3,030.18 | 3,535.21 |
| Aberdyfi | 1,016.40 | 1,185.80 | 1,355.20 | 1,524.60 | 1,863.40 | 2,202.20 | 2,541.00 | 3,049.20 | 3,557.40 |
| Abergwyngregyn | 1,007.79 | 1,175.75 | 1,343.72 | 1,511.68 | 1,847.61 | 2,183.54 | 2,519.47 | 3,023.36 | 3,527.25 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,025.27 | 1,196.15 | 1,367.03 | 1,537.91 | 1,879.67 | 2,221.43 | 2,563.18 | 3,075.82 | 3,588.46 |
| Arthog | 1,003.67 | 1,170.94 | 1,338.22 | 1,505.50 | 1,840.06 | 2,174.61 | 2,509.17 | 3,011.00 | 3,512.83 |
| Bala | 1,012.75 | 1,181.55 | 1,350.34 | 1,519.13 | 1,856.71 | 2,194.30 | 2,531.88 | 3,038.26 | 3,544.64 |
| Bangor | 1,056.81 | 1,232.95 | 1,409.08 | 1,585.22 | 1,937.49 | 2,289.76 | 2,642.03 | 3,170.44 | 3,698.85 |
| Beddgelert | 1,011.91 | 1,180.56 | 1,349.21 | 1,517.86 | 1,855.16 | 2,192.46 | 2,529.77 | 3,035.72 | 3,541.67 |
| Betws Garmon | 1,006.49 | 1,174.24 | 1,341.99 | 1,509.74 | 1,845.24 | 2,180.74 | 2,516.23 | 3,019.48 | 3,522.73 |
| Bethesda | 1,016.99 | 1,186.49 | 1,355.99 | 1,525.49 | 1,864.49 | 2,203.49 | 2,542.48 | 3,050.98 | 3,559.48 |
| Bontnewydd | 1,017.28 | 1,186.83 | 1,356.37 | 1,525.92 | 1,865.01 | 2,204.11 | 2,543.20 | 3,051.84 | 3,560.48 |
| Botwnnog | 1,001.19 | 1,168.06 | 1,334.92 | 1,501.79 | 1,835.52 | 2,169.25 | 2,502.98 | 3,003.58 | 3,504.18 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,003.35 | 1,170.58 | 1,337.80 | 1,505.03 | 1,839.48 | 2,173.93 | 2,508.38 | 3,010.06 | 3,511.74 |
| Bryncrug | 1,017.43 | 1,187.00 | 1,356.57 | 1,526.14 | 1,865.28 | 2,204.42 | 2,543.57 | 3,052.28 | 3,560.99 |
| Buan | 1,004.75 | 1,172.20 | 1,339.66 | 1,507.12 | 1,842.04 | 2,176.95 | 2,511.87 | 3,014.24 | 3,516.61 |
| Caernarfon | 1,031.61 | 1,203.54 | 1,375.48 | 1,547.41 | 1,891.28 | 2,235.15 | 2,579.02 | 3,094.82 | 3,610.62 |
| Clynnog Fawr | 1,011.61 | 1,180.21 | 1,348.81 | 1,517.41 | 1,854.61 | 2,191.81 | 2,529.02 | 3,034.82 | 3,540.62 |
| Corris | 1,010.08 | 1,178.43 | 1,346.77 | 1,515.12 | 1,851.81 | 2,188.51 | 2,525.20 | 3,030.24 | 3,535.28 |
| Criccieth | 1,018.17 | 1,187.87 | 1,357.56 | 1,527.26 | 1,866.65 | 2,206.04 | 2,545.43 | 3,054.52 | 3,563.61 |
| Dolbenmaen | 1,004.83 | 1,172.30 | 1,339.77 | 1,507.24 | 1,842.18 | 2,177.12 | 2,512.07 | 3,014.48 | 3,516.89 |
| Dolgellau | 1,023.67 | 1,194.29 | 1,364.90 | 1,535.51 | 1,876.73 | 2,217.96 | 2,559.18 | 3,071.02 | 3,582.86 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,019.08 | 1,188.93 | 1,358.77 | 1,528.62 | 1,868.31 | 2,208.01 | 2,547.70 | 3,057.24 | 3,566.78 |
| Y Felinheli | 1,014.23 | 1,183.26 | 1,352.30 | 1,521.34 | 1,859.42 | 2,197.49 | 2,535.57 | 3,042.68 | 3,549.79 |
| Ffestiniog | 1,052.69 | 1,228.13 | 1,403.58 | 1,579.03 | 1,929.93 | 2,280.82 | 2,631.72 | 3,158.06 | 3,684.40 |
| Y Ganllwyd | 1,016.26 | 1,185.64 | 1,355.01 | 1,524.39 | 1,863.14 | 2,201.90 | 2,540.65 | 3,048.78 | 3,556.91 |
| Harlech | 1,009.95 | 1,178.27 | 1,346.60 | 1,514.92 | 1,851.57 | 2,188.22 | 2,524.87 | 3,029.84 | 3,534.81 |
| Llanaelhaearn | 1,032.22 | 1,204.26 | 1,376.29 | 1,548.33 | 1,892.40 | 2,236.48 | 2,580.55 | 3,096.66 | 3,612.77 |
| Llanbedr | 1,023.59 | 1,194.19 | 1,364.79 | 1,535.39 | 1,876.59 | 2,217.79 | 2,558.98 | 3,070.78 | 3,582.58 |
| Llanbedrog | 1,010.17 | 1,178.53 | 1,346.89 | 1,515.25 | 1,851.97 | 2,188.69 | 2,525.42 | 3,030.50 | 3,535.58 |
| Llanberis | 1,010.77 | 1,179.24 | 1,347.70 | 1,516.16 | 1,853.08 | 2,190.01 | 2,526.93 | 3,032.32 | 3,537.71 |
| Llandwrog | 1,020.87 | 1,191.01 | 1,361.16 | 1,531.30 | 1,871.59 | 2,211.88 | 2,552.17 | 3,062.60 | 3,573.03 |
| Llandygai | 1,007.69 | 1,175.63 | 1,343.58 | 1,511.53 | 1,847.43 | 2,183.32 | 2,519.22 | 3,023.06 | 3,526.90 |
| Llanddeiniolen | 1,000.87 | 1,167.68 | 1,334.49 | 1,501.30 | 1,834.92 | 2,168.54 | 2,502.17 | 3,002.60 | 3,503.03 |
| Llandderfel | 1,008.59 | 1,176.69 | 1,344.79 | 1,512.89 | 1,849.09 | 2,185.29 | 2,521.48 | 3,025.78 | 3,530.08 |
| Llanegryn | 1,014.83 | 1,183.96 | 1,353.10 | 1,522.24 | 1,860.52 | 2,198.79 | 2,537.07 | 3,044.48 | 3,551.89 |
| Llanelltyd | 1,011.47 | 1,180.05 | 1,348.63 | 1,517.21 | 1,854.37 | 2,191.53 | 2,528.68 | 3,034.42 | 3,540.16 |
| Llanengan | 1,010.49 | 1,178.91 | 1,347.32 | 1,515.74 | 1,852.57 | 2,189.40 | 2,526.23 | 3,031.48 | 3,536.73 |
| Llanfair | 1,013.03 | 1,181.86 | 1,350.70 | 1,519.54 | 1,857.22 | 2,194.89 | 2,532.57 | 3,039.08 | 3,545.59 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,027.97 | 1,199.29 | 1,370.62 | 1,541.95 | 1,884.61 | 2,227.26 | 2,569.92 | 3,083.90 | 3,597.88 |
| Llanfrothen | 1,011.37 | 1,179.93 | 1,348.49 | 1,517.05 | 1,854.17 | 2,191.29 | 2,528.42 | 3,034.10 | 3,539.78 |
| Llangelynnin | 1,006.69 | 1,174.48 | 1,342.26 | 1,510.04 | 1,845.60 | 2,181.17 | 2,516.73 | 3,020.08 | 3,523.43 |
| Llangywer | 1,013.19 | 1,182.05 | 1,350.92 | 1,519.78 | 1,857.51 | 2,195.24 | 2,532.97 | 3,039.56 | 3,546.15 |
| Llanllechid | 1,008.39 | 1,176.46 | 1,344.52 | 1,512.59 | 1,848.72 | 2,184.85 | 2,520.98 | 3,025.18 | 3,529.38 |
| Llanllyfni | 1,012.87 | 1,181.69 | 1,350.50 | 1,519.31 | 1,856.93 | 2,194.56 | 2,532.18 | 3,038.62 | 3,545.06 |
| Llannor | 1,004.70 | 1,172.15 | 1,339.60 | 1,507.05 | 1,841.95 | 2,176.85 | 2,511.75 | 3,014.10 | 3,516.45 |
| Llanrug | 1,011.77 | 1,180.39 | 1,349.02 | 1,517.65 | 1,854.91 | 2,192.16 | 2,529.42 | 3,035.30 | 3,541.18 |
| Llanuwchllyn | 1,015.18 | 1,184.38 | 1,353.57 | 1,522.77 | 1,861.16 | 2,199.56 | 2,537.95 | 3,045.54 | 3,553.13 |
| Llanwnda | 1,013.63 | 1,182.57 | 1,351.51 | 1,520.45 | 1,858.33 | 2,196.21 | 2,534.08 | 3,040.90 | 3,547.72 |
| Llanycil | 1,007.11 | 1,174.96 | 1,342.81 | 1,510.66 | 1,846.36 | 2,182.06 | 2,517.77 | 3,021.32 | 3,524.87 |
| Llanystumdwy | 1,005.13 | 1,172.65 | 1,340.17 | 1,507.69 | 1,842.73 | 2,177.77 | 2,512.82 | 3,015.38 | 3,517.94 |
| Maentwrog | 1,007.97 | 1,175.97 | 1,343.96 | 1,511.96 | 1,847.95 | 2,183.94 | 2,519.93 | 3,023.92 | 3,527.91 |
| Mawddwy | 1,009.45 | 1,177.70 | 1,345.94 | 1,514.18 | 1,850.66 | 2,187.15 | 2,523.63 | 3,028.36 | 3,533.09 |
| Nefyn | 1,022.71 | 1,193.17 | 1,363.62 | 1,534.07 | 1,874.97 | 2,215.88 | 2,556.78 | 3,068.14 | 3,579.50 |
| Pennal | 1,011.96 | 1,180.62 | 1,349.28 | 1,517.94 | 1,855.26 | 2,192.58 | 2,529.90 | 3,035.88 | 3,541.86 |
| Penrhyndeudraeth | 1,023.27 | 1,193.81 | 1,364.36 | 1,534.90 | 1,875.99 | 2,217.08 | 2,558.17 | 3,069.80 | 3,581.43 |
| Pentir | 1,020.93 | 1,191.08 | 1,361.24 | 1,531.39 | 1,871.70 | 2,212.01 | 2,552.32 | 3,062.78 | 3,573.24 |
| Pistyll | 1,016.72 | 1,186.17 | 1,355.63 | 1,525.08 | 1,863.99 | 2,202.89 | 2,541.80 | 3,050.16 | 3,558.52 |
| Porthmadog | 1,012.49 | 1,181.24 | 1,349.99 | 1,518.74 | 1,856.24 | 2,193.74 | 2,531.23 | 3,037.48 | 3,543.73 |
| Pwllheli | 1,021.47 | 1,191.71 | 1,361.96 | 1,532.20 | 1,872.69 | 2,213.18 | 2,553.67 | 3,064.40 | 3,575.13 |
| Talsarnau | 1,026.03 | 1,197.03 | 1,368.04 | 1,539.04 | 1,881.05 | 2,223.06 | 2,565.07 | 3,078.08 | 3,591.09 |
| Trawsfynydd | 1,014.79 | 1,183.92 | 1,353.05 | 1,522.18 | 1,860.44 | 2,198.70 | 2,536.97 | 3,044.36 | 3,551.75 |
| Tudweiliog | 1,002.43 | 1,169.51 | 1,336.58 | 1,503.65 | 1,837.79 | 2,171.94 | 2,506.08 | 3,007.30 | 3,508.52 |
| Tywyn | 1,030.37 | 1,202.09 | 1,373.82 | 1,545.55 | 1,889.01 | 2,232.46 | 2,575.92 | 3,091.10 | 3,606.28 |
| Waunfawr | 1,007.84 | 1,175.81 | 1,343.79 | 1,511.76 | 1,847.71 | 2,183.65 | 2,519.60 | 3,023.52 | 3,527.44 |

## Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2017/18 | Band D 2016/17 | Cynnydd / Increase 16/17 - 17/18 | Cynnydd / Increase % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 521.73 | 13,000 | 24.92 | 1,240.96 | 249.21 | 1,515.09 | 1,464.37 | 50.72 | 3.5% |
| Aberdyfi | 915.28 | 31,510 | 34.43 | 1,240.96 | 249.21 | 1,524.60 | 1,472.74 | 51.86 | 3.5% |
| Abergwyngregyn | 116.25 | 2,500 | 21.51 | 1,240.96 | 249.21 | 1,511.68 | 1,464.50 | 47.18 | 3.2% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,089.22 | 52,000 | 47.74 | 1,240.96 | 249.21 | 1,537.91 | 1,495.17 | 42.74 | 2.9% |
| Arthog | 603.52 | 9,250 | 15.33 | 1,240.96 | 249.21 | 1,505.50 | 1,461.27 | 44.23 | 3.0% |
| Y Bala | 759.58 | 22,000 | 28.96 | 1,240.96 | 249.21 | 1,519.13 | 1,472.28 | 46.85 | 3.2% |
| Bangor | 3,752.56 | 356,683 | 95.05 | 1,240.96 | 249.21 | 1,585.22 | 1,538.34 | 46.88 | 3.0% |
| Beddgelert | 314.22 | 8,700 | 27.69 | 1,240.96 | 249.21 | 1,517.86 | 1,474.97 | 42.89 | 2.9% |
| Betws Garmon | 132.87 | 2,600 | 19.57 | 1,240.96 | 249.21 | 1,509.74 | 1,457.22 | 52.52 | 3.6% |
| Bethesda | 1,656.05 | 58,495 | 35.32 | 1,240.96 | 249.21 | 1,525.49 | 1,481.84 | 43.65 | 2.9% |
| Bontnewydd | 433.54 | 15,500 | 35.75 | 1,240.96 | 249.21 | 1,525.92 | 1,482.58 | 43.34 | 2.9% |
| Botwnnog | 430.29 | 5,000 | 11.62 | 1,240.96 | 249.21 | 1,501.79 | 1,458.75 | 43.04 | 3.0% |
| Brithdir & Llanfachreth | 403.86 | 6,000 | 14.86 | 1,240.96 | 249.21 | 1,505.03 | 1,462.37 | 42.66 | 2.9% |
| Bryncrug | 333.65 | 12,000 | 35.97 | 1,240.96 | 249.21 | 1,526.14 | 1,472.08 | 54.06 | 3.7% |
| Buan | 221.19 | 3,750 | 16.95 | 1,240.96 | 249.21 | 1,507.12 | 1,463.87 | 43.25 | 3.0% |
| Caernarfon | 3,467.91 | 198,489 | 57.24 | 1,240.96 | 249.21 | 1,547.41 | 1,504.82 | 42.59 | 2.8% |
| Clynnog Fawr | 440.58 | 12,000 | 27.24 | 1,240.96 | 249.21 | 1,517.41 | 1,465.80 | 51.61 | 3.5% |
| Corris | 291.48 | 7,272 | 24.95 | 1,240.96 | 249.21 | 1,515.12 | 1,467.65 | 47.47 | 3.2% |
| Criccieth | 916.60 | 34,000 | 37.09 | 1,240.96 | 249.21 | 1,527.26 | 1,484.57 | 42.69 | 2.9% |
| Dolbenmaen | 585.70 | 10,000 | 17.07 | 1,240.96 | 249.21 | 1,507.24 | 1,464.44 | 42.80 | 2.9% |
| Dolgellau | 1,190.95 | 54,000 | 45.34 | 1,240.96 | 249.21 | 1,535.51 | 1,489.53 | 45.98 | 3.1% |
| Dyffryn Ardudwy | 773.53 | 29,742 | 38.45 | 1,240.96 | 249.21 | 1,528.62 | 1,472.65 | 55.97 | 3.8% |
| Y Felinheli | 1,122.95 | 35,000 | 31.17 | 1,240.96 | 249.21 | 1,521.34 | 1,478.95 | 42.39 | 2.9% |
| Ffestiniog | 1,687.96 | 150,000 | 88.86 | 1,240.96 | 249.21 | 1,579.03 | 1,530.84 | 48.19 | 3.1% |
| Y Ganllwyd | 78.91 | 2,700 | 34.22 | 1,240.96 | 249.21 | 1,524.39 | 1,485.69 | 38.70 | 2.6% |
| Harlech | 747.37 | 18,500 | 24.75 | 1,240.96 | 249.21 | 1,514.92 | 1,470.10 | 44.82 | 3.0% |
| Llanaelhaearn | 429.82 | 25,000 | 58.16 | 1,240.96 | 249.21 | 1,548.33 | 1,505.36 | 42.97 | 2.9% |
| Llanbedr | 313.90 | 14,193 | 45.22 | 1,240.96 | 249.21 | 1,535.39 | 1,483.07 | 52.32 | 3.5% |
| Llanbedrog | 677.91 | 17,000 | 25.08 | 1,240.96 | 249.21 | 1,515.25 | 1,472.34 | 42.91 | 2.9% |
| Llanberis | 769.47 | 20,000 | 25.99 | 1,240.96 | 249.21 | 1,516.16 | 1,473.37 | 42.79 | 2.9% |
| Llandwrog | 996.86 | 41,000 | 41.13 | 1,240.96 | 249.21 | 1,531.30 | 1,486.18 | 45.12 | 3.0% |
| Llandygai | 964.62 | 20,605 | 21.36 | 1,240.96 | 249.21 | 1,511.53 | 1,468.36 | 43.17 | 2.9% |
| Llanddeiniolen | 1,797.37 | 20,000 | 11.13 | 1,240.96 | 249.21 | 1,501.30 | 1,455.57 | 45.73 | 3.1% |
| Llandderfel | 484.05 | 11,000 | 22.72 | 1,240.96 | 249.21 | 1,512.89 | 1,465.46 | 47.43 | 3.2% |
| Llanegryn | 155.92 | 5,000 | 32.07 | 1,240.96 | 249.21 | 1,522.24 | 1,473.33 | 48.91 | 3.3% |
| Llanelltyd | 277.33 | 7,500 | 27.04 | 1,240.96 | 249.21 | 1,517.21 | 1,471.13 | 46.08 | 3.1% |
| Llanengan | 1,955.12 | 50,000 | 25.57 | 1,240.96 | 249.21 | 1,515.74 | 1,472.81 | 42.93 | 2.9% |
| Llanfair | 306.45 | 9,000 | 29.37 | 1,240.96 | 249.21 | 1,519.54 | 1,470.23 | 49.31 | 3.4% |
| Llanfihangel y Pennant | 207.70 | 10,755 | 51.78 | 1,240.96 | 249.21 | 1,541.95 | 1,475.47 | 66.48 | 4.5% |
| Llanfrothen | 215.74 | 5,800 | 26.88 | 1,240.96 | 249.21 | 1,517.05 | 1,472.53 | 44.52 | 3.0% |
| Llangelynnin | 392.62 | 7,800 | 19.87 | 1,240.96 | 249.21 | 1,510.04 | 1,467.27 | 42.77 | 2.9% |
| Llangywer | 135.09 | 4,000 | 29.61 | 1,240.96 | 249.21 | 1,519.78 | 1,477.19 | 42.59 | 2.9% |
| Llanllechid | 334.49 | 7,500 | 22.42 | 1,240.96 | 249.21 | 1,512.59 | 1,469.59 | 43.00 | 2.9% |
| Llanllyfni | 1,385.04 | 40,360 | 29.14 | 1,240.96 | 249.21 | 1,519.31 | 1,475.21 | 44.10 | 3.0% |
| Llannor | 897.86 | 15,160 | 16.88 | 1,240.96 | 249.21 | 1,507.05 | 1,464.29 | 42.76 | 2.9% |
| Llanrug | 1,128.07 | 31,000 | 27.48 | 1,240.96 | 249.21 | 1,517.65 | 1,469.54 | 48.11 | 3.3% |
| Llanuwchllyn | 306.73 | 10,000 | 32.60 | 1,240.96 | 249.21 | 1,522.77 | 1,480.56 | 42.21 | 2.9% |
| Llanwnda | 766.22 | 23,200 | 30.28 | 1,240.96 | 249.21 | 1,520.45 | 1,470.87 | 49.58 | 3.4% |
| Llanycil | 195.26 | 4,000 | 20.49 | 1,240.96 | 249.21 | 1,510.66 | 1,464.20 | 46.46 | 3.2% |
| Llanystumdwy | 856.31 | 15,000 | 17.52 | 1,240.96 | 249.21 | 1,507.69 | 1,464.69 | 43.00 | 2.9% |
| Maentwrog | 272.30 | 5,933 | 21.79 | 1,240.96 | 249.21 | 1,511.96 | 1,467.92 | 44.04 | 3.0% |
| Mawddwy | 333.19 | 8,000 | 24.01 | 1,240.96 | 249.21 | 1,514.18 | 1,463.87 | 50.31 | 3.4% |
| Nefyn | 1,380.07 | 60,579 | 43.90 | 1,240.96 | 249.21 | 1,534.07 | 1,483.43 | 50.64 | 3.4% |
| Pennal | 216.03 | 6,000 | 27.77 | 1,240.96 | 249.21 | 1,517.94 | 1,474.60 | 43.34 | 2.9% |
| Penrhyndeudraeth | 760.14 | 34,000 | 44.73 | 1,240.96 | 249.21 | 1,534.90 | 1,492.64 | 42.26 | 2.8% |
| Pentir | 1,067.54 | 44,000 | 41.22 | 1,240.96 | 249.21 | 1,531.39 | 1,476.49 | 54.90 | 3.7% |
| Pistyll | 243.50 | 8,500 | 34.91 | 1,240.96 | 249.21 | 1,525.08 | 1,470.20 | 54.88 | 3.7% |
| Porthmadog | 1,947.97 | 55,650 | 28.57 | 1,240.96 | 249.21 | 1,518.74 | 1,474.68 | 44.06 | 3.0% |
| Pwllheli | 1,713.23 | 72,000 | 42.03 | 1,240.96 | 249.21 | 1,532.20 | 1,488.74 | 43.46 | 2.9% |
| Talsarnau | 306.91 | 15,000 | 48.87 | 1,240.96 | 249.21 | 1,539.04 | 1,480.05 | 58.99 | 4.0% |
| Trawsfynydd | 499.78 | 16,000 | 32.01 | 1,240.96 | 249.21 | 1,522.18 | 1,473.24 | 48.94 | 3.3% |
| Tudweiliog | 444.98 | 6,000 | 13.48 | 1,240.96 | 249.21 | 1,503.65 | 1,460.90 | 42.75 | 2.9% |
| Tywyn | 1,552.99 | 86,000 | 55.38 | 1,240.96 | 249.21 | 1,545.55 | 1,495.52 | 50.03 | 3.3% |
| Waunfawr | 555.89 | 12,000 | 21.59 | 1,240.96 | 249.21 | 1,511.76 | 1,469.29 | 42.47 | 2.9% |

| Awdurdod | 2017/18 | 2016/17 | | Authority |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | 1,240.96 | 1,207.16 | 2.8% | Gwynedd Council |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 249.21 | 240.12 | 3.79% | North Wales Police & Crime Commissioner |
| Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd) | 39.72 | 36.58 | 8.58% | Community Councils (Average) |
| Cyfanswm | 1,529.89 | 1,483.86 | 3.1% | Total |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor llawn |
| **DYDDIAD** | 18 Mai 2017 |
| **TEITL** | Addasiadau i'r Cyfansoddiad yn Sgil Adolygiad Trefn Craffu ac i'r Rheolau Sefydlog Pwyllgorau. |
| **PWRPAS** | Sicrhau fod y drefn craffu a fabwysiadwyd ym Mis Mawrth 2017 yn weithredol drwy addasiadau yn y cyfansoddiad.<br><br>Gweithredu newidiadau i drefniadau'r Pwyllgor Cynllunio yn deillio o ofynion cyfreithiol newydd |
| **ARGYMHELLIAD** | 1. Mabwysiadu'r newidiadau yn Adran 7 o'r Cyfansoddiad, "Pwyllgorau Craffu'r" yn unol â'r adroddiad ( Atodiad 1) i weithredu'r adolygiad o'r drefn graffu.<br><br>2. Mabwysiadu'r newidiadau i gylch gorchwyol y Pwyllgor Archwilio a'r Pwylgor Iaith mewn ymateb i'r adolygiad craffu a newid enw'r Pwyllgor Archwilio i Bwylgor Archwilio a Llywodraethu (Atodiad 2)<br><br>3. Nodi'r newidiadau yn Adran 9 o'r Cyfansoddiad, "Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill" er cydymffurfio a gofynion statudol (Atodiad 3).<br><br>4. Nodi addasu'r cyfansoddiad i adlewyrchu newid enw'r Adran Rheoleiddio i'r Adran Amgylchedd. |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro |

**1. Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar y 2il o Fawrth 2017 fe benderfynodd y Cyngor i wneud newidiadau i'r drefn Pwyllgorau Craffu. Gan fod y newidiadau yma ag oblygiadau cyfansoddiadol cyn y gellir eu gweithredu'n ffurfiol mae angen newid y cyfansoddiad ac fe ofynnwyd i mi baratoi adroddiad i'r Cyngor yn argymell y newidiadau angenrheidiol.

Yn ogystal â'r newidiadau yma cyhoeddwyd rheoliadau gan y Llywodraeth yn ystod Mawrth 2017 yn gosod gofynion cyfreithiol ynglŷn â threfniadau Pwyllgorau Cynllunio. Mae gofyn felly i'r Cyngor newid y rheolau sefydlog ar gyfer Pwyllgorau er gweithredu y gofyn yma.

Gan fod yr Adran Rheoleiddio yn newid ei enw i'r Adran Amgylchedd mae angen adlewyrchu'r newid yma yn y Cyfansoddiad. Ni fydd yn golygu newid o sylwedd.

**2. Addasu'r Drefn Craffu.**

Mae Adran 7 o'r Cyfansoddiad yn darparu ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. Gan fod y gyfundrefn Craffu yn statudol mae'r rhan yma yn gyfuniad o ddarpariaeth sydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith ynghyd a threfniadau gan y Cyngor. Roedd y penderfyniad ym Mis Mawrth yn cwmpasu nid yn unig newidiadau i'r fframwaith pwyllgorau a chylch gorchwyl ond hefyd y gyfundrefn craffu, Mae'r argymhellion yma yn adlewyrchu'r newidiadau cyfansoddiadol sydd yn deillio o'r penderfyniad yma.

Mae un neu ddau o bwyntiau penodol y byddwn yn tynnu sylw atynt:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod gofyn fod y Cyngor yn penodi Pwyllgor Craffu i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r gofyn yma yn Adran 35 o'r Ddeddf yn cwmpasu ystod eang o faterion gan gynnwys penderfyniadau'r bwrdd a llywodraethu. Priodolwyd y maes penodol yma i Bwyllgor Cymunedau  Fodd bynnag dylid nodi wrth gwrs mai craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn benodol sydd dan sylw yma ac nid y Ddeddf yn ei hystyr ehangach. O ystyried natur draws awdurdod y Ddeddf bydd yn berthnasol fel ystyriaeth a thestun craffu ar draws pob pwyllgor.

- Yn ei benderfyniad ym Mis Mawrth gosodwyd cylch- gorchwyl arfaethedig  ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag mae'r argymhelliad sydd yn adroddiad yma yn argymell gwneud un addasiad penodol. Ym Mis Mawrth gosodwyd maes "Tai" yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Mae natur y gwaith yma yng nghyd-destun y Cyngor yn priodoli ei hun i faes gwaith y Pwyllgor Craffu Gofal. Yn ychwanegol at hyn byddai hyn yn golygu yn caniatáu i'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn adrodd un Pwyllgor Craffu. Felly argymhellir fod y newid yma yn cael ei wneud.

- O ganlyniad i'r penderfyniad yma mae newidiadu yn cael eu argymhell ar gyfer gylch gorchwyl y Pwyllgorau Archwilio a Iaith i'w rhoi ar waith It is also recommended that the Audit Committee's name is changed to Audit and Governance Committee .

**3. Rheoliadau Pwyllgorau Cynllunio**

Yn dilyn Deddf Gynllunio ( Cymru ) 2015 a'r rhaglen Cynllunio Cadarnhaol y Llywodraeth mae  newidiadau i ystod o faterion ynglŷn â threfniadaeth cynllunio wedi bod yn digwydd yn ddiweddar yng Nghymru. Mae ffocws y gwaith yma wedi cynnwys trefniadau apelio,

cynllunio strategol, gorfodi , ceisiadau am ganiatâd a threfniadau penderfynu. Yn deillio o’r rhaglen yma cyhoeddwyd dau set o reoliadau gan y Llywodraeth ynglŷn â Phwyllgorau Cynllunio ym Mawrth eleni:

Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 ,

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017

Mae’r Rheoliadau yma rhyngddynt yn golygu newidiadau i drefniadau Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru. Gellir crynhoi'r gofynion newydd yn y modd canlynol:

- Cyfyngir maint Pwyllgor Cynllunio i ddim llai na 11 a dim mwy na 21 o aelodau,
- Mewn ward aml aelod dim ond un aelod o’r ward all gael ei benodi i’r Pwyllgor Cynllunio
- Cynyddir cworwm y Pwyllgor i o’ leiaf hanner yr aelodaeth.
- Ni chaniateir defnydd eilyddion yn y Pwyllgor Cynllunio.

Mae’r rhain yn ofynion statudol sydd wedi eu gosod gan y llywodraeth ac felly mae’n ofynnol eu gweithredu ac addasu’r cyfansoddiad i’r perwyl. Mae’r addasiadau angenrheidiol i’r Cyfansoddiad wedi eu hadrodd yn Atodiad ac rwyf wedi eu gweithredu gan ddefnyddio fy mhwerau dan Adran 2.6.2 o’r Cyfansoddiad.

**Adran Amgylchedd**

Gan fod Adran Rheoleiddio bellach am arddel yr enw Adran Amgylchedd nodi’r bydd angen gweithredu newidiadau yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu’r newid yma.

**Argymhelliad :**

1. **Mabwysiadu’r newidiadau yn Adran 7 o’r Cyfansoddiad, “Pwyllgorau Craffu’r” yn unol â’r adroddiad i weithredu’r adolygiad o’r drefn graffu.**

2. **Mabwysiadu’r newidiadau i gylch gorchwyol y Pwyllgor Archwilio a’r Pwylgor Iaith mewn ymateb i’r adolygiad craffu a newid enw’r Pwyllgor Archwilio I Bwylgor Archwilio a Llywodraethu.**

3. **Nodi’r newidiadau yn Adran 9 o’r Cyfansoddiad, “Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill” er cydymffurfio a gofynion statudol.**

4. **Nodi’r newiduadau yn y cyfansoddiad i adlewyrchu newid enw’r Adran Rheoleiddio i’r Adran Amgylchedd.**

Iwan G D Evans

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro

**Dogfennau Cefndir**

Adroddiad Cyngor 2 Mawrth 2017 – Adolygiad o’r Drefn Graffu

Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 ,

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017

**ATODIAD 1**

**ADRAN 7**

## 7. PWYLLGORAU CRAFFU

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan y Gyfraith, gyflawni swyddogaethau trosolwg a chraffu penodol. Mae'r swyddogaethau hyn yn elfen hollbwysig o ddemocratiaeth leol. Dylai'r Pwyllgorau Craffu fod yn bwyllgorau pwerus sy'n gallu cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cyngor a dwyn y Cabinet i gyfrif am ei benderfyniadau. Rhan allweddol arall o'r rôl trosolwg a chraffu yw adolygu polisïau presennol, ystyried cynigion ar gyfer polisïau newydd ac awgrymu polisïau newydd.

7.1.2 Dylid cynnal trosolwg a chraffu mewn ffordd adeiladol a dylai geisio cyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n bodloni anghenion a dyheadau preswylwyr lleol. Ni ddylai Pwyllgorau Craffu ofni herio a chwestiynu penderfyniadau a rhoi beirniadaeth adeiladol.

### 7.2 Pwyllgorau Craffu

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi penodi 3 o Bwyllgorau Craffu a fydd, rhyngddynt, yn:

7.2.1 adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor;

7.2.2 llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;

7.2.3 ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu ei phreswylwyr; ac

7.2.4 arfer yr hawl i alw i mewn penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a Swyddogion, ond sydd heb eu gweithredu eto, er mwyn eu hailystyried.

### 7.3 Rôl, Cwmpas ac Aelodaeth

Disgrifir rôl, cwmpas ac Aelodaeth y Pwyllgorau Craffu yn y tabl isod:

| **Pwyllgor ac Aelodaeth** | **Rôl a Chwmpas** |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi<br><br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a'g addysg ac economi megis:<br>• Addysg |

| **Pwyllgor ac Aelodaeth** | **Rôl a Chwmpas** |
|---|---|
| | • Economi<br>• Llwybr i Gyflogaeth<br>• Adfywio<br>• <u>Gofal Cwsmer</u> |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis:<br>• ~~Adfywio ac Economi~~<br>• ~~Gwynedd Werdd~~<br>• Amgylchedd<br>• ~~Rhwydwaith~~ Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol<br>• ~~Grymuso Cymunedau~~<br>• <u>Gwastraff ac Ail Gylchu</u><br>• ~~Tai~~<br>• Iaith<br>• Lleihau ôl-troed Carbon<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• <u>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</u><br>• <u>Gwasanaethau i Gwsmeriaid</u> |
| Pwyllgor Craffu Gofal<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau gofal megis:<br>• Pobl hyn ac Oedolion<br>• Teuluoedd<br>• Plant a Phobl Ifanc<br>• Iechyd<br>• Tai |

**7.4 <u>Swyddogaethau Penodol</u>**

7.4.1 <u>Datblygu ac Adolygu Polisïau</u>

Caiff y Pwyllgorau Craffu:

(a) ystyried effaith polisïau er mwyn asesu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth;

(b) gynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei Gyllideb a Fframwaith Polisi trwy ddadansoddi materion polisi yn fanwl;

(c) gynnal ymchwil, ymgynghoriadau â'r gymuned ac ymgynghoriadau eraill wrth ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;

(ch) holi barn Aelodau'r Cabinet] a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor am faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal; a

(d) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol.

7.4.2 Craffu

Caiff y Pwyllgorau Craffu:

(a) adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cabinet a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor o ran penderfyniadau unigol a thros amser;

(b) adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion polisi, ei dargedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol;

(c) holi Aelodau'r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor ynglŷn â'u penderfyniadau a'u perfformiad, boed hynny'n gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu o ran penderfyniadau, mentrau neu brosiect penodol;

(ch) wneud argymhellion i'r Cabinet a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor sy'n deillio o ganlyniad y broses graffu;

(d) adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill a phersonau dynodedig yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt trwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgorau Craffu a phobl leol ynglŷn â'u gweithgareddau a'u perfformiad; a

(dd) holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda'i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi).

7.4.3 Cyllid

Gall y Pwyllgorau Craffu ymarfer cyfrifoldeb cyffredinol am y cyllid a sicrheir iddynt.

7.4.4 Adroddiad Blynyddol

Mae'n rhaid i'r Pwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i aelodau'r Cyngor ar eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglen waith yn y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n briodol.

## 7.5 Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Un o rolau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan adran 8 y Mesur yw hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu y Cyngor a hyrwyddo cymorth ac arweiniad i

Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn gyffredinol ynglŷn â swyddogaethau'r Pwyllgorau Craffu.

**7.6 Pwy Gaiff fod yn Aelod o Bwyllgorau Craffu?**

Caiff pob Cynghorydd ac eithrio Aelodau'r Cabinet fod yn Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw Aelod ymwneud â chraffu ar benderfyniadau y mae ef/hi wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy.

**7.7 Aelodau Cyfetholedig**

Bydd gan bob Pwyllgor Craffu yr hawl i argymell i'r Cyngor benodi uchafswm o ddau o bobl yn aelodau cyfetholedig nad oes ganddynt bleidlais i wasanaethu ar y pwyllgor am flwyddyn ar y tro. Wrth arfer pŵer i benodi aelod cyfetholedig, neu benderfynu pa un ai arfer y pŵer hwnnw, mae'n rhaid i'r Awdurdod, o dan adran 76 y Mesur, roi ystyriaeth i'r arweiniad a roddwyd gan Weinidogion Cymru a chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd ganddynt.

**7.8 Cynrychiolwyr Addysg**

Bydd y Pwyllgor Craffu ~~Gwasanaethau~~Addysg ac Economi yn cynnwys yn ei Aelodaeth gynrychiolwyr pleidleisio o gredoau crefyddol a rhiant-lywodraethwyr, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac arweiniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**7.9 Pwy fydd yn Cadeirio?**

Bydd y trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael eu dilyn ar gyfer penodi unigolion i gadeirio Pwyllgorau Craffu.

**7.10 Rôl y Cadeirydd a'r Pwyllgorau Craffu**

7.10.1 Bydd rôl Cadeirydd y Pwyllgorau Craffu yn hollbwysig wrth weithredu'r dull newydd o weithio. Bydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, yn unigol ac fel aelodau o'r Fforwm Craffu, yn cysylltu â'r Cabinet. Bydd y Fforwm Craffu, yn goruchwylio'r Rhaglen Waith ac yn nodi themâu trawsbynciol sy'n codi o'r Pwyllgorau Craffu amrywiol.

7.10.2 I grynhoi, felly, bydd y Cadeirydd yn:

(a) atebol am gyflawni'r gwaith,~~ffordd newydd o weithio ar gyfer craffu;~~

(b) cyfarfod yn rheolaidd i fonitro Rhaglenni Gwaith;

(c) cysylltu â'r Cabinet ynglŷn â materion sy'n effeithio ar y Rhaglen Waith Craffu; ac yn

(ch) adrodd yn ysgrifenedig i aelodau'r Cyngor ar gynnydd wrth weithredu'r dulliau newydd o weithio.

7.10.3 Golygai "Fforwm Craffu" gyfarfod o Gadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i ymgymryd a'r swyddogaethau a roddir iddynt yn Rhan 7.

**7.11 Rhaglen Waith**

7.11.1 Bydd y Pwyllgorau Craffu unigol yn cynnig eitemau ar gyfer eu gosod yn eu Rhaglenni Gwaith ~~gyfrifol am osod eu Rhaglen Waith eu hunain ac~~, wrth

wneud hynny, dylent ystyried dymuniadau Aelodau'r Pwyllgor hwnnw nad ydynt yn Aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf yn y Cyngor. Cânt hefyd ystyried materion brys ac annisgwyl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith. Fodd bynnag, pennir y rhaglenni gwaith gan y Fforwm Craffu fydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgorau.

7.11.2 Bydd trefn "Gwyntyllu", lle bydd unrhyw fater sydd yn cael ei gofrestru am ystyriaeth yn cael ei drafod, yn y lle cyntaf gyda'r Adran Gwasanaeth berthnasol i weld a oes modd ei ddatrys heb graffu ffurfiol ac wedi hynny gyda'r Aelod Cabinet perthnasol. Os nad oes modd datrys y mater bydd wedyn yn destun trafodaeth rhwng yr Aelod Cabinet a Chadeirydd Pwyllgor Craffu perthnasol i ystyried gwerth graffu'r mater cyn i'r Fforwm Craffu benderfynu ei osod ar y rhaglen waith neu beidio.

## 7.12 Cyfarfodydd

7.12.1 Bydd y Pwyllgorau Craffu, fel arfer, yn cynnal 5 o gyfarfodydd y flwyddyn.

7.12.2 Ceir galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd er mwyn ymdrin â materion a alwyd i mewn (Adran 7.25 ) lle y mae Cadeirydd Pwyllgor Craffu o'r farn bod angen i'r Pwyllgor Craffu hwnnw ystyried y penderfyniad a alwyd i mewn cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor..

## 7.13 Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu

7.13.1 O dan adran 58 y Mesur, ceir gwneud rheoliadau i ganiatáu i ddau awdurdod lleol neu fwy benodi Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.. Amlinellir hyn yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2012.

7.13.2 Bydd gan y Cyngor Banel Craffu ar y cyd gyda Chyngor Sir Ynys Mon i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ei sefydlu drwy'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Bydd y Panel yn adrodd yn ôl i'r ddau gyngor ac yn cyfeirio unrhyw waith pellach ar feysydd penodol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

## 7.14 Rheolau Gweithdrefn a Thrafod

Bydd y Rheolau Gweithdrefn Craffu yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu

## 7.15 Faint o Bwyllgorau Craffu a Sefydlir a beth fydd y Trefniadau ar eu cyfer?

7.15.1 Bydd gan y Cyngor 3 o Bwyllgorau Craffu a nodir yn y tabl yn Adran 7.3 a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd. Caiff y Pwyllgorau benodi grwpiau llai i gynnal ~~archwiliad~~ ymchwiliadau manwl neu weithgorau craffu ar bynciau penodol er mwyn adrodd yn ôl iddynt. Ceir penodi grwpiau o'r fath am gyfnod penodol ac fe'u diddymir pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben.

7.15.2 Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu fel a nodir yn y tabl yn Adran 7.3.

7.15.3 Cadeirir pob Pwyllgor Craffu gan Gadeirydd a benodwyd o aelodaeth y Pwyllgor Craffu hwnnw:

(a) bydd Aelodaeth drawsbleidiol ym mhob Pwyllgor Craffu;

(b) bydd y Pwyllgorau Craffu yn ymgymryd â’r canlynol:

(i) adolygu neu ymchwilio i fater penodol yn fanwl ac yn ddi-oed, gan adrodd ar eu casgliadau a gwneud unrhyw argymhellion i’r Cyngor neu’r Cabinet fel y bo’n briodol;

(ii) cynnal ymchwil ac ymgynghoriadau â’r gymuned (ac eraill) at ddibenion dadansoddi materion a datblygu dewisiadau posibl, lle y bo’n briodol, trwy gysylltu â’r partneriaethau ardal/cymunedol;

(iii) ystyried ac adrodd ar ddulliau o annog a gwella cyfranogiad y gymuned mewn datblygu dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau;

(iv) holi Aelodau’r Cabinet a Swyddogion am eu barn a’u gweithredoedd o ran materion a chynigion sy’n effeithio ar y sir;

(v) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy’n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol; a

(vi) holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda’i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi) wrth gynnal prosesau ymchwiliol ac adrodd.

**7.16 <u>Cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu</u>**

Caiff y Cyngor bennu cylch o gyfarfodydd ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. Os nad yw’r Cyngor yn pennu’r cylch, bydd pob Pwyllgor o’r fath yn pennu ei gylch cyfarfodydd ei hun. Caiff y Cadeirydd neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd, newid dyddiad neu ganslo cyfarfodydd, neu alw cyfarfodydd ychwanegol fel yr ystyria’n angenrheidiol i ymdrin â rhaglen waith y Pwyllgor. Caiff y Cadeirydd (neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd) neu’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd alw cyfarfod Pwyllgor Craffu, os yw ef/hi o’r farn bod hynny’n angenrheidiol neu’n briodol.

**7.17 <u>Cworwm</u>**

Bydd y cworwm ar gyfer Pwyllgor Craffu yn chwarter aelodau’r pwyllgor.

**7.18 <u>Eitemau Agenda</u>**

7.18.1 Bydd gan unrhyw Aelod o Bwyllgor Craffu penodol yr hawl i roi rhybudd i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei fod/bod yn dymuno ychwanegu eitem sy’n berthnasol i swyddogaethau’r Pwyllgor hwnnw at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Dylid rhoi saith diwrnod gwaith o rybudd o’r eitem i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghyd â digon o wybodaeth i alluogi’r Swyddog i gynghori ynghylch natur a diben yr eitem.

7.18.2 Ar ôl derbyn cais o’r fath, cyn belled ag y bo’n fater priodol i’w ystyried, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer ei gynnwys yn yr agenda nesaf sydd ar gael.

7.18.4 Bydd Pwyllgor Craffu hefyd yn ymateb, cyn gynted ag y bydd ei raglen waith yn caniatáu, i geisiadau gan y Cyngor a/neu'r Cabinet i adolygu meysydd penodol o weithgarwch y Cyngor. Pan fydd yn gwneud hynny, bydd y Pwyllgor Craffu penodol yn adrodd ar ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Cyngor. Bydd y Cyngor a/neu'r Cabinet yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Craffu o fewn mis o'i dderbyn.

## 7.19 Adolygu a Datblygu Polisi

7.19.1 Amlinellir rôl y Pwyllgorau Craffu o ran datblygu Cyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor yn fanwl yn Rheolau Gweithdrefnol y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn Adran 15.

7.19.2 O ran datblygu ymagwedd y Cyngor at faterion nad ydynt yn rhan o'i Gyllideb a'i Fframwaith Polisi, caiff Pwyllgor Craffu gyflwyno cynigion i'r Cabinet ar gyfer datblygiadau cyn belled â'u bod yn berthnasol i faterion sydd o fewn ei gylch gorchwyl.

7.19.3 Caiff Pwyllgor Craffu gynnal ymchwiliadau ac archwilio'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer cyfeiriad datblygu polisi yn y dyfodol a chaiff benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w gynorthwyo â'r broses hon. Caiff ymweld â safleoedd, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y mae'n ystyried yn rhesymol eu bod yn briodol i lywio ei ystyriaethau. Caiff ofyn i dystion fynychu i'w annerch ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried a chaiff dalu ffi resymol a threuliau i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

## 7.20 Adroddiadau gan y Pwyllgorau Craffu

7.20.1 Bydd pob argymhelliad ffurfiol gan y Pwyllgorau Craffu yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried gan y Cabinet (os yw'r cynigion yn gyson â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi presennol), neu i'r Cyngor fel y bo'n briodol (e.e. pe byddai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi cytunedig). Bydd yr argymhellion hyn gan y Pwyllgor yn medru cynnwys argymhellion ymchwiliad neu weithgor craffu .

7.20.2 Os na all Pwyllgor Craffu gytuno ar un adroddiad argymhelliad neu set o argymhellion terfynol sengl i'r Cyngor neu'r Cabinet fel y bo'n briodol, ceir paratoi un adroddiad lleiafrif a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet gyda'r adroddiad mwyafrif.

7.20.3 Bydd y Cyngor neu'r Cabinet yn ystyried adroddiad Pwyllgor Craffu o fewn mis o'i gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 7.21 Sicrhau bod Adroddiadau Craffu yn cael eu hystyried gan y Cabinet

7.21.1 Bydd yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet yn cynnwys eitem o'r enw "Materion yn Codi o Drosolwg a Chraffu". Bydd adroddiadau' neu argymhellion y Pwyllgorau Craffu (gweler 7.20.1 uchod) a atgyfeiriwyd i'r Cabinet yn cael eu cynnwys ar y pwynt hwn yn yr agenda (oni bai eu bod wedi derbyn sylw yng nghyd-destun ystyriaethau'r Cabinet ynglŷn ag eitem berthnasol ar yr agenda) cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Os na fydd eitem yn cael ei hystyried gan y Cabinet o fewn deufis, bydd y Cabinet yn rhoi

esboniad o’r rhesymau i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol cyn gynted ag y bo’n ymarferol.

7.21.2 Pan fydd y Cabinet wedi dirprwyo pŵer gwneud penderfyniadau i Aelod unigol arall o’r Cabinet, bydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn cael ei gyflwyno iddo ef/iddi hi i’w ystyried. Ar yr adeg y gwneir hynny, bydd y Pwyllgor Craffu yn rhoi copi o’r adroddiad i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae’n rhaid i’r Aelod y dirprwywyd pŵer gwneud penderfyniadau iddo/iddi ystyried yr adroddiad ac ymateb yn ysgrifenedig i’r Pwyllgor Craffu o fewn pedair wythnos o’i dderbyn. Bydd copi o’i (h)ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a’r Arweinydd. Bydd yr Aelod hefyd yn mynychu cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu hwnnw yn y dyfodol i gyflwyno ei (h)ymateb.

**7.22 Hawliau Aelodau’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i weld Dogfennau**

7.22.1 Yn ogystal â’u hawliau fel Cynghorwyr, mae gan Aelodau’r Pwyllgorau Craffu yr hawl ychwanegol i weld dogfennau, ac i gael rhybudd o gyfarfodydd fel yr amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

7.22.2 Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal cysylltiad manylach rhwng y Cabinet a’r Pwyllgorau Craffu fel y bo’n briodol yn dibynnu ar y mater penodol sy’n cael ei ystyried.

**7.23 Esboniadau gan Aelodau a Swyddogion**

7.23.1 Caiff y Pwyllgorau Craffu adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau’r Cyngor. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni’r rôl Graffu, cânt ofyn i unrhyw Aelod o’r Cabinet, y Prif Weithredwr a/neu unrhyw uwch Swyddog ymddangos ger eu bron i esbonio mewn perthynas â materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl:

(a) unrhyw benderfyniad penodol neu gyfres o benderfyniadau;

(b) i ba raddau y mae’r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi’r Cyngor; a/neu

(c) ei berfformiad ef/pherfformiad hi

ac mae’n ddyletswydd ar yr unigolion hynny i fod yn bresennol os gofynnir iddynt.

7.23.2 At y diben hwn, mae uwch Swyddog yn cynnwys unrhyw brif Swyddog, ac uwch Swyddog priodol arall. Pan fo pryderon ynglŷn â phriodoldeb y Swyddog a ddylai fod yn bresennol, bydd y prif Swyddog perthnasol yn trafod hyn gyda’r Cadeirydd neu’r Is-gadeirydd Craffu priodol er mwyn ceisio cael cydsyniad.

7.23.3 Pan fydd yn ofynnol i unrhyw Aelod neu Swyddog fynychu Pwyllgor Craffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw’n hysbysu’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu’r Aelod neu’r Swyddog, yn ysgrifenedig os oes angen, gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o’r cyfarfod y mae’n ofynnol

iddo ef/iddi hi ei fynychu (oni bai y cytunwyd fel arall). Bydd unrhyw rybudd yn nodi natur yr eitem y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi fynychu i'w hesbonio a pha un a yw'n ofynnol dangos unrhyw bapurau i'r Pwyllgor.

7.23.4 Pan fydd yr esboniad sydd i'w roi i Bwyllgor Craffu yn golygu bod angen dangos adroddiad, yna rhoddir digon o rybudd i'r Aelod neu'r Swyddog dan sylw i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

7.23.5 Os, oherwydd amgylchiadau eithriadol, nad yw'r Aelod neu'r Swyddog yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad gofynnol, yna bydd y Pwyllgor Craffu], mewn ymgynghoriad â'r Aelod neu'r Swyddog, yn trefnu dyddiad arall iddo ef/iddi hi fod yn bresennol.

**7.24 Presenoldeb gan Bobl Eraill**

Caiff Pwyllgor Craffu wahodd pobl heblaw am y rhai hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.23 uchod i'w annerch, trafod materion sy'n achosi pryder yn lleol a/neu ateb cwestiynau. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd yn dymuno clywed gan breswylwyr, rhanddeiliaid ac Aelodau a Swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bydd yn gwahodd pobl felly i fod yn bresennol.

**7.25 Galw i Mewn**

7.25.1 Rheolau

(a) Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet neu un o Bwyllgorau'r Cabinet neu o dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys trwy ddull electronig lle y bo'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn pum niwrnod gwaith clir o'i wneud. Bydd cofnodion yr holl benderfyniadau o'r fath yn cael eu hanfon at bob Aelod o'r Pwyllgor Craffu o fewn yr un raddfa amser, gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad.

(b) Bydd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys y dyddiad y'i cyhoeddir arno ac yn nodi y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y ceir ei weithredu ar ddiwedd pum niwrnod gwaith clir ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi, oni bai bod Pwyllgor Craffu yn ei wrthwynebu a'i alw i mewn i'w adolygu.

(c) Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Swyddog Monitro yn galw i mewn penderfyniad i graffu arno gan Bwyllgor Craffu os gofynnir am hynny yn y fformat a nodir gan Gadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb Is-gadeirydd) ac unrhyw ddau aelod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw (o ddau grwp gwahanol), a bydd yn hysbysu'r Cabinet neu'r Aelod Cabinet unigol bod y penderfyniad am gael ei alw i mewn. Bydd ef/hi yn galw cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw ar y cyfryw ddyddiad ag y bydd ef/hi yn penderfynu, a hynny lle y bo'n bosibl ar ôl ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwnnw, a ph'un bynnag o fewn 15 diwrnod gwaith clir o'r penderfyniad i alw i mewn (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried ymestyn y terfyn amser hwn).

(ch) Os yw'r Pwyllgor Craffu yn dal i bryderu am y penderfyniad ar ôl ei ystyried, yna caiff ei gyfeirio'n ôl at y sawl a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried, gan amlinellu'n ysgrifenedig natur ei bryderon neu gyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn. Os caiff ei gyfeirio at y penderfynwr, bydd ef/hi yn ei ailystyried o fewn 15 diwrnod gwaith clir arall, gan wneud gwelliannau iddo ai peidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

(d) Os, ar ôl gwrthwynebiad i'r penderfyniad, nad yw Pwyllgor Craffu yn cyfarfod o fewn y cyfnod a nodir uchod, neu os yw'n cyfarfod ond nid yw'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Chraffu, neu ddiwedd y cyfnod o 5 diwrnod gwaith arall, pa un bynnag sydd gynharaf.

(dd) Os cyfeiriwyd y mater at y Cyngor Llawn ac nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad a wnaed, yna ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach a bydd y penderfyniad yn dod i rym yn unol â'r ddarpariaeth isod. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwrthwynebu, bydd y Cyngor yn cyfeirio unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwrthwynebu yn ôl at yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ynghyd â safbwyntiau'r Cyngor ar y penderfyniad. Bydd y Cabinet neu'r Aelod Cabinet yn dewis pa un ai diwygio'r penderfyniad ai peidio cyn gwneud penderfyniad terfynol a'i roi ar waith. Os gwnaed y penderfyniad gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd, neu un o'i Bwyllgorau, ailystyrir y penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Cabinet neu bwyllgor. Os gwnaed y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn yn ei ailystyried o fewn deng niwrnod gwaith o gais y Cyngor.

(e) Os nad yw'r Cyngor yn cyfarfod, neu os yw'n cyfarfod ond yn dewis peidio â chyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r corff neu'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad, daw'r penderfyniad i rym ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu ddiwedd y cyfnod pryd y dylid bod wedi cynnal cyfarfod y Cyngor, pa un bynnag sydd gynharaf.

(f) Er mwyn sicrhau nad yw'r broses galw i mewn yn cael ei chamddefnyddio, nac yn achosi oedi afresymol, gosodir rhai cyfyngiadau ar ei defnydd, sef:

   (i) caiff Pwyllgor Craffu alw i mewn cyfanswm o dri penderfyniad fesul cyfnod o dri mis;

   (ii) mae angen tri Aelod o Bwyllgor Craffu (o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf), gan gynnwys y Cadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb yr Is-gadeirydd) er mwyn i benderfyniad gael ei alw i mewn;

   (iii) pan fydd Aelod wedi llofnodi cais am alw i mewn o dan y paragraff hwn, ni chaiff ef/hi wneud hynny eto nes bod y cyfnod o dri mis wedi dod i ben.

   (iv) Ni chaiff unrhyw Aelodau Cyfetholedig adrodd penderfyniad i'w alw i mewn.

(ff) Caiff y Swyddog Monitro roi feto ar unrhyw gais am alw i mewn os yw y tu allan i gylch gorchwyl y cynllun hwn.

(g) Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i bob Aelod sy'n gofyn am alw mater i mewn fynychu'r cyfarfod pryd yr ystyrir y mater.

7.25.2 Galw i Mewn a Brys

(a) Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a amlinellir uchod yn berthnasol pan fo'r penderfyniad a wneir gan y Cabinet yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys pe byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn, er enghraifft, yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau cyhoeddus eraill. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r hysbysiad a roddir ohono i'r cyhoedd, yn datgan pa un a yw'r penderfyniad yn un brys, ym marn yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ac felly ni cheir ei alw i mewn. Mae'n rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater brys. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd angen caniatâd yr Is-Gadeirydd. Yn absenoldeb y ddau, bydd angen caniatâd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu ei (h)enwebai ef/hi. Mae'n rhaid adrodd ar benderfyniadau a wnaed fel mater brys yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, ynghyd â'r rhesymau dros y brys.

(b) Bydd gweithrediad y darpariaethau sy'n ymwneud â galw i mewn a brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i'r Cyngor gyda chynigion ar gyfer adolygu os bydd angen.

**7.26 Chwip Plaid**

7.26.1 Ni chaniateir i aelod o bwyllgor craffu bleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod o'r pwyllgor os rhoddwyd cyfarwyddyd chwip plaid i'r aelod cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r cwestiwn ("Cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid").

7.26.2 Rhaid diystyru pleidlais a roddir yn groes i 7.26.1.

7.26.3 Rhaid i aelod o'r pwyllgor ddatgan mewn cyfarfod unrhyw gyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid sydd wedi ei roi iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfarfod.

7.26.4 Rhaid cofnodi pob datganiad a wneir o dan 7.26.3 yng nghofnodion y cyfarfod.

7.26.5 Y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu sydd i benderfynu a yw aelod wedi cael cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid mewn perthynas â'r cyfarfod.

**7.27 Y Weithdrefn mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu**

7.27.1 Bydd Pwyllgor Craffu yn ystyried y busnes canlynol:

(a) cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datganiadau o fuddiannau;

(c) ystyried unrhyw fater sydd wedi ei alw i fewn i sylw'r pwyllgor;

(ch) ymatebion y Cabinet i adroddiadau'r Pwyllgor Craffu hwnnw;

(d) y busnes a amlinellwyd fel arall yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

Bydd y Rheolau Gweithdrefnol ar gyfer Pwyllgor Craffu yr un fath â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor ac eithrio y caiff Cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i'r rheolau trafod gael eu llacio er mwyn i'r rhai hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod allu cyfrannu'n llawn, boed hynny fel Aelodau o Bwyllgor Craffu neu mewn unrhyw rinwedd arall sy'n caniatáu iddynt gyfrannu at werth y cyfarfod.

7.27.2 Caiff Pwyllgor Craffu ofyn i bobl eraill fynychu i roi tystiolaeth neu ateb cwestiynau ynglŷn ag unrhyw eitemau sydd ar ei agenda. Dylid cynnal cyfarfodydd yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) bod y busnes yn cael ei gynnal yn deg a bod pob Aelod o'r Pwyllgor Craffu yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n bresennol, ac i gyfrannu a siarad;

(b) bod y rhai hynny sy'n cynorthwyo trwy roi tystiolaeth yn cael eu trin â pharch a chwrteisi;

(c) bod y busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon â phosibl.

7.27.3 Yn dilyn ymchwiliad neu adolygiad, bydd Pwyllgor Craffu yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a bydd yn sicrhau bod ei adroddiad a'i ganfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

## 7.28 <u>Materion sydd o fewn Cylch Gorchwyl mwy nag un Pwyllgor Craffu</u>

Pan fydd mater sydd i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yn dod o fewn cylch gorchwyl un neu fwy o Bwyllgorau eraill, y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion priodol, fel arfer mewn cyfarfodydd o'r Fforwm Craffu, fydd yn penderfynu pa Bwyllgor fydd yn ei ystyried neu, os na allant gytuno, bydd Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu.

## 7.29 <u>Galwad gan Gynghorydd i Weithredu</u>

7.29.1 Mae'r Alwad gan Gynghorydd i Weithredu yn ddull o alluogi Aelodau etholedig i ddwyn materion sy'n achosi pryder yn lleol i sylw'r broses Graffu trwy'r drefn "Gwyntyllu". Dylai hyn fod yn "ddewis olaf".

7.29 2 Caiff unrhyw Aelod ofyn am gael gosod eitem ar agenda Pwyllgor Craffu i'w hystyried.

7.29.3 Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â Galwad i Weithredu wedi'i hamlinellu yn y ddogfen Galwad gan Gynghorydd i Weithredu – Canllawiau i Gynghorwyr, sydd wedi'i hatodi i'r Rheolau hyn yn Atodiad 1.

**ATODIAD 2**

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.

- Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.

- Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad.

**Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.**

**FF. Swyddogaethau Amrywiol**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd). | Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. | |

**Swyddogaethau o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011**

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011:

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(dd) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

**Swyddogaethau Eraill.**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntion adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

| | |
|---|---|
| (iv) | ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth; |
| (v) | adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu, trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu. |

# PWYLLGOR IAITH

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.

- Mae'r tabl isod yn rhestri'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad).

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| ~~Goruchwylio~~ Adolygu a chraffu ar faterion sydd yn ymwneud â gweithrediad ~~Cynllun~~ Polisi Iaith Cyngor Gwynedd | | |
| Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio | | |
| Derbyn gwybodaeth ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg yn unol â'r angen | | |
| Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen. | | |

**ATODIAD 3**

**ADRAN 9**

**9. PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO AC ERAILL**

9.12.2 **Penodi aelodau (ac eilyddion) pwyllgorau ac is-bwyllgorau**

(1) Pryd bynnag

(i) y mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu dyraniad seddau ar bwyllgorau rhwng grwpiau gwleidyddol, neu

(ii) penderfyna'r Cyngor wneud adolygiad o'r fath, neu

(iii) y mae'n ofynnol i bwyllgor adolygu dyraniad seddau ar is-bwyllgor rhwng grwpiau gwleidyddol, neu

(iv) y penderfyna pwyllgor wneud adolygiad o'r fath,

rhaid i'r swyddog priodol gyflwyno adroddiad i'r Cyngor neu'r pwyllgor (fel y bo'n briodol) i ddangos pa ddyraniad o seddau a fyddai yn ei farn/barn ef/hi yn ymateb orau i ofynion adran 15(4), Deddf 1989.

(2) Yng ngoleuni adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor neu'r pwyllgor, fel y bo'n briodol, bennu dyraniad y seddau i grwpiau gwleidyddol.

(3) Pryd bynnag y bo angen ethol aelod pleidleisiol o bwyllgor neu is-bwyllgor yn unol â dymuniadau grŵp gwleidyddol y dyrannwyd y sedd iddo, a phryd bynnag y mae angen terfynu penodiad yn unol â'r dymuniadau hynny, yna mae'n rhaid i'r swyddog priodol wneud y penodiad neu ei derfynu yn unol â hynny wedi derbyn cais ysgrifenedig gan neu ar ran y grŵp gwleidyddol*.

~~(4) Gall y Cyngor benodi un aelod o bob Grŵp Gwleidyddol a gynrychiolir ar y Pwyllgor Cynllunio i weithredu fel eilydd ar y pwyllgor hwnnw. Ceir manylion o hawliau eilydd yn Rheol 9.12.5.~~

9.12.4 **Cworwm**

(1) Yn ddarostyngedig i (2) isod n i chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod o bwyllgor nac is-bwyllgor oni bai fod o leiaf chwarter cyfanrif aelodau pleidleisiol y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, fel y bo'n briodol, yn bresennol ac ni chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw achos onid oes o leiaf tri aelod pleidleisiol yn bresennol ac eithrio yn achos is-bwyllgor sydd yn cynnwys llai na 5 aelod, pan fydd y cworwm yn ddau aelod â phleidlais.

(2) Ni chaniateir trin busnes mewn unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm nifer aelodau'r pwyllgor yn bresennol, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

~~**9.12. 6 Eilyddion**~~

~~(5) Bydd gan eilydd a benodwyd dan Reol 19.2.2(4) hawl i siarad a phleidleisio yn unig yn y cyfarfod perthnasol o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor ac ni fydd unrhyw swyddogaethau na phenodiadau eraill gan gynnwys penodiadau i Weithgorau o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor yn perthyn i'r aelod tra'n gweithredu fel eilydd.~~

~~(6) Ni all yr aelod sefydlog fynychu y cyfarfod os yw wedi ei eilyddio.~~

~~(7) Gall eilyddion ond fynychu cyfarfod:~~

~~(i) i gymryd lle aelod sefydlog o'r Pwyllgor neu Is Bwyllgor;~~

~~(ii) ble na all yr aelod sefydlog fod yn bresennol am yr oll o'r cyfarfod~~

~~ac~~

~~(iii) os yw'r aelod sefydlog wedi hysbysu'r Cadeirydd ymlaen llaw o'r bwriad i eilyddio.~~

(*Mewn ward aml aelod dim ond un aelod o'r ward all gael ei benodi i'r Pwyllgor Cynllunio)

| CYFARFOD | Y CYNGOR LLAWN |
|---|---|
| DYDDIAD | 18 MAI, 2017 |
| TEITL YR ADRODDIAD | CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR |
| PWRPAS | Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor |
| ARGYMHELLIAD | Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor a Chadarnhau Dyraniad Swyddi ac Oriau'r Swyddogion Cefnogi Aelodau |
| AWDUR | Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol, a hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Yn ogystal bydd rhaid adolygu mewn unrhyw gyfarfod arall o'r Cyngor pan fo newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.

1.3 Ar ddechrau tymor newydd o'r Cyngor mae rheidrwydd hefyd i adolygu'r dyraniad o unrhyw swyddi gwleidyddol rhwng y grwpiau.

1.4 Pan ysgrifennwyd yr adroddiad nid oedd union gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn wybyddus.

1.5 Yn unol â threfn y Cyngor hwn, bydd Grŵp Busnes y Cyngor yn cyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhellion i'r Cyngor Llawn.

1.6 Bydd y Grŵp Busnes yn cyfarfod ar 15fed Mai, 2017 ac adroddir ar adborth trafodaethau y Grŵp Busnes yng nghyfarfod y Cyngor.

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Er mwyn ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

3.2 **Pwyllgorau Craffu** - Yn unol â gofynion adrannau 66 - 75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") mae yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

3.3 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau.

3.4 Pan ysgrifennwyd yr adroddiad nid oedd union gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor nac aelodaeth y weithrediaeth yn hysbys, O'r herwydd, ac yn unol â threfniadau y Cyngor hwn, gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhellion ar gadeiryddiaethau, i gyd-fynd a'r rheolau statudol, i'r Cyngor Llawn.

3.5 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw fel a nodir isod)

**Pwyllgor Archwilio** - Yn unol ag adran 83 o'r Mesur ni chaiff cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** - Yn unol ag adran 14 o'r Mesur y Cyngor Llawn sydd i benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth. Gan nad yw aelodaeth y weithrediaeth yn hysbys eto, bydd y Cyngor Llawn yn penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin.

**Pwyllgor Trwyddedu** - ni chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu.

3.6 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

## 4. SWYDDOGION CEFNOGI GRWPIAU GWLEIDYDDOL

4.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 mae'n ofynnol adolygu dyraniad y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau yn ôl cryfder y grwpiau sydd â hawl iddynt.

4.2 Atgoffir y Cyngor bod rhai cyfyngiadau ar y nifer o swyddi o'r fath; dim ond grwpiau sydd â 10% o seddau ar y cyngor sydd yn medru cael cymorth gwleidyddol ac mae cyfyngiad o dri i bob cyngor.

4.3 Yn achos y Cyngor hwn felly, ac yn amodol ar dderbyn cadarnhad ffurfiol o aelodau y grwpiau gwleidyddol, dim ond grwpiau Plaid Cymru ac Annibynnol sydd yn gymwys. O fewn y gyllideb sydd ar gael rhennir yr oriau rhwng y grwpiau yn ôl cryfder cymharol y grwpiau, hynny yw ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

4.4 Bydd y swyddi a'r dyraniadau oriau yn parhau am dymor y Cyngor. Bydd yn ofynol eu hadolygu os oes newid sylweddol i'r cydbwysedd gwleidyddol ac/neu fod grwp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau.

## 5 CYRFF ALLANOL

5.1 Mae rhestr helaeth o gyrff allanol lle mae gan y Cyngor gynrychiolydd arnynt. Mae'r cyrff hyn yn amrywio'n fawr; mae rhai yn genedlaethol, rhai yn lleol eu naws, rhai yn elusennau, rhai yn gwmnïau ac yn y blaen. Enwebir y rhan helaethaf o'r cynrychiolwyr gan Aelodau'r Cabinet.

5.2 Y Cyngor, serch hynny, sy'n penderfynu a chymeradwyo dyraniadau'r seddau i gyrff sydd angen eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae dau o'r rhain, sef

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

5.3 Bydd yr aelodau a enwebir i gynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol yn gwasanaethu ar y cyrff hyn am dymor y Cyngor.

5.4 Panel Heddlu a Throsedd. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor adnabod aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar Banel Heddlu a Throsedd. Bydd aelodaeth y panel yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol ar draws Gogledd Cymru mor agos a phosib. Nid yw'r wybodaeth am y dyraniad seddau ar y Panel fydd ar gael i Wynedd gennym wrth i'r adroddiad gael ei ysgrifennu. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor adnabod cynrychiolwyr yn ystod cyfarfod y Cyngor.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

(a) fabwysiadu'r cydbwysedd gwleidyddol

(b) ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.

(c) fabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau y pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol fel y nodwyd ym mharagraff 3.2

(ch) gadarnhau'r dyraniad o swyddi swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol a'r oriau'r swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol, a hynny am oes y Cyngor os nad oes, ym marn y Grwp Busnes, newid sylweddol yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor neu bod grwp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau

(d) gadarnhau'r cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y cyrff allanol a enwir ym mharagraff 5.2

(dd) enwebu aelodau i’r Panel Heddlu a Throsedd, yn unol a’r dyraniad priodol i Wynedd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **18 Mai, 2017** |
| **PWNC** | **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** |
| **PWRPAS** | **Penderfynu ar yr uwch gyflogau am y flwyddyn i ddod** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1. Pennir lefel y gydnabyddiaeth ariannol i aelodau gan gorff cenedlaethol, y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae adroddiad blynyddol Y Panel bellach wedi ei gyhoeddi ers Chwefror 2017, a bydd adroddiad y panel yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Dyma ddolen i'r dudalen lle mae modd canfod adroddiad y Panel Annibynnol.
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/170223-annual-report-cy.pdf

3. Gweler isod y prif bwyntiau sy'n deillio o'r adroddiad:-

a) Cynnydd o £100 yn y cyflogau sylfaenol i aelodau (codi o £13,300 i £13,400)
b) Dim cynnydd i'r elfen cyfrifoldeb cyflogau uwch, ond bydd uwch ddeiliaid cyflog yn derbyn y codiad i'r cyflog sylfaenol.
c) Pob Cyngor unigol i benderfynu gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel, Lefel 1, (£29,100) neu Lefel 2 (£26,200)
ch) Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1, (£22,100) neu Lefel 2 (£20,100)
d) Cydnabyddiaeth ariannol nawr ar gael ar gyfer trefniadau amgen mewn achosion o salwch hirdymor gan ddeiliaid uwch gyflogau (i gyd-fynd â rheoliadau mewn perthynas ag Absenoldebau Teuluol)
dd) Defnyddir y term "ad-daliad ar gyfer costau gofal" yn hytrach na "lwfans gofal", gan ganiatáu dulliau dewisol i Gynghorau o ran cyhoeddi'r wybodaeth. Gwneir hyn er mwyn annog mwy o aelodau etholedig i fanteisio ar y ddarpariaeth, a hynny heb dderbyn cyhoeddusrwydd anffafriol.

4. Mae dyfarniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhwymo Cynghorau i wneud y taliadau a bennir ganddynt. Noder mai'r unig ffordd i beidio gwneud y taliadau hynny yw i aelod unigol ddatgan yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad yw am dderbyn y cyfan neu gyfran o'r taliadau.

**Y MATER SYDD GERBRON**

5. Mae adroddiad y Panel yn nodi fod blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r panel argymell dwy lefel o gyflog ar gyfer aelodau'r Cabinet ac i gadeiryddion pwyllgorau sy'n deilwng i dderbyn uwch gyflogau. Nododd y Panel na fu i unrhyw awdurdod ddefnyddio'r hyblygrwydd i adlewyrchu amrywiadau yn lefel cyfrifoldeb portffolios a chadeiryddion yn ystod 2016/17 trwy gyflwyno taliadau gwahaniaethol.

6. Gan mai am flwyddyn yn unig y mae'r drefn hon wedi bodoli, mae'r Panel yn cadw'r cyfleuster hwn ar gyfer hyblygrwydd i adlewyrchu amrywiadau yn y lefelau cyfrifoldebau yn y gydnabyddiaeth ariannol a gymhwysir i uwch swyddi penodol.

7. Wrth ystyried y mater 'llynedd', bu i'r Cyngor Llawn benderfynu fod y taliadau yn cael eu gwneud ar Lefel 1 ar gyfer Aelodau Cabinet ac ar gyfer Cadeiryddion pwyllgorau penodol. Wrth ddod i gasgliad, bu i'r aelodau ystyried fod dyraniad dyletswyddau aelodau Cabinet yn fwriadol er mwyn sicrhau cysondeb a llwyth gwaith cytbwys. Yn ogystal, ystyriwyd y ffaith y byddai'n gallu arwain at gryn gymhlethdod petai mwy nag un lefel cyflog i aelodau Cabinet, gan olygu fod symud dyletswyddau o aelod cabinet i un arall yn mynd yn anos. Ystyriwyd hefyd fod natur ddaearyddol y sir a'r sialens o ddarparu gwasanaethau ar draws yr ail sir fwyaf yng Nghymru yn ffactor y dylid ei ystyried ar gyfer yr aelodau Cabinet a Chadeiryddion y pwyllgorau. Yn yr un modd ystyriwyd y gofyn ar aelodau i fod yn teithio ar draws Gwynedd, gan gofio y gall gymryd oddeutu dwy awr a hanner i deithio o Ogledd y Sir i'r de.

8. Wrth ystyried y Cadeiryddiaethau fyddai'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol uwch, ystyriwyd eto bwysau gwaith i'r Cadeiryddion, amlder cyfarfodydd ffurfiol a gofynion anffurfiol, natur ddaearyddol y sir a'r gofynion i deithio i gyfarfodydd ayyb. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi trafod yr uwch gyflogau ar gyfer 17/18, gweler eu hargymhellion isod. I ddod i gasgliad, ystyriwyd llwyth gwaith a gofynion tebygol ar gyfer 17/18, ac ni ellir rhagweld fod y gofynion ar gyfer y Cadeiryddion ar y rhestr am leihau. Yn wir, rhagwelir fod y gofynion am gynyddu i rai Cadeiryddion, ee Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu.

9. Wrth wneud penderfyniad eleni, dylai'r Cyngor ystyried, nid yn unig ar ba lefel i osod y swyddi gwahanol ond hefyd a oes lle i wahaniaethu rhwng y cyfrifoldebau gwahanol. O ran lefel y cyfrifoldebau sydd yn cael eu hysgwyddo gan Aelodau Cabinet gwahanol, dylid nodi ein bod fel Cyngor am wneud pob ymdrech posib i rannu cyfrifoldebau Cabinet mor gyfartal â phosib. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan y Cadeiryddion Pwyllgorau a nodir isod ac, yn wir, gadeiryddion rhai pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig fel y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

10. Yn ogystal ag ystyried y lefelau, rhaid i'r Cyngor gofio bod cyfyngiad ar y nifer o uwch-gyflogau y mae modd eu talu. Y cyfyngiad ar gyfer Gwynedd yw 18, ac ar sail penderfyniadau blaenorol y Cyngor fe'u telir i'r canlynol:-

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid mwyaf

Y Cadeiryddion a ganlyn:-

- Pwyllgor Craffu ( x3 )
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Pensiynau

Oherwydd yr asesiad cyfrifoldebau diweddaraf, ar hyn o bryd, mae pob Aelod Cabinet ar Lefel 1 ac mae'r holl Gadeiryddion Pwyllgorau a nodwyd uchod yn cael lefel 1 o ran taliad.

**ARGYMHELLIAD**

11. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi trafod y materion yn eu cyfarfod ym mis Ebrill, ac yn argymell:

- Parhau i dalu uwch gyflogau i'r 18 rộl a restrir yn mharagraff 10 uchod.
- Cadw lefel cyflogau Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau (fel a restrir ym mharagraff 10 uchod) ar Lefel 1 ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd
- Cynnal arolwg o lwyth gwaith yr holl gadeiryddion ymhen blwyddyn i weld a oes lle i amrywio'r penderfyniad neu ail-ystyried y lefelau cyflog

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **18 MAI 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CALENDR PWYLLGORAU 2017/18** |
| **PWRPAS** | **MABWYSIADU CALENDR PWYLLGORAU 2017/18** |
| **AWDUR** | **GERAINT OWEN**<br>**PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ystod y broses o lunio Calendr Pwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2017/18, rhoddwyd gwahoddiad i aelodau etholedig drwy *Rhaeadr* i ddatgan eu barn am amserlennu cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2017/18.

1.2 Bwriad hyn oedd ceisio sicrhau fod y Cyngor yn rhoi cyfle i bawb i fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, gan felly wneud pob ymdrech i sicrhau fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addas ac ar amseroedd rhesymol er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r cais yn *Rhaeadr*.

1.3 Bu ymgynghori ar fersiwn drafft calendr Pwyllgorau 2017/18 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

**2. CALENDR PWYLLGORAU 2017/18**

2.1. Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2017/18.

2.2. Dyma'r dyddiadau yr ydym yn rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.

**3. Hyfforddiant Aelodau**

3.1 Mae yna rai dyddiadau hyfforddiant yn gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. I ddod dros yr anhawster y bydd aelodau yn methu mynychu sesiynau hyfforddiant oherwydd y broblem uchod, ceisiwyd gosod mwy nag un cynnig ar gyfer y sesiynau hyfforddiant penodol hynny.

**4. ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu y Calendr Pwyllgorau yn derfynol.

| 2 017/2018 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** | **yp** | ***18** | **15** | | | | **5** | | **14** | | | **1** | | **3** |
| Cabinet | **yp** | | **6/27** | **18** | **1•** | **12** | **3/24** | **21** | **12** | **16** | **13** | **13** | **10** | |
| **Hyfforddiant Aelodau** | **yb/ yp** | **9 a 10** | **7/14** | **5/14/ 19** | | **7/20** | | **8/15/ 22** | **13** | **10/ 31** | **21** | **21** | | |
| (1) Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi | **yb/ yp** | | **29** | | | **26** | | **16** | | **23** | | | **17** | |
| (2) Pwyllgor Craffu - Cymunedau | **yb/ yp** | | **21** | | | | **10** | | **7** | | **22** | | **19** | |
| (3) Pwyllgor Craffu - Gofal | **yb/ yp** | | **13** | | | **21** | | **14** | | **30** | | **8** | | |
| Pwyllgor Archwilio | **yb** | | **6/22** | **13** | | **28** | | **30** | | | **8** | | | **10** |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | **yb/ yp** | | | **11** | | **19** | | | **5** | | | | **12** | |
| Pwyllgor Cynllunio | | | **5** | **3/24** | | **4/25** | **16** | **6/27** | **18** | **15** | **5/26** | **19** | **16** | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | **yb/ yp** | | **28am** | | | **22pm** | | **10** | | **26** | | **9** | | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | **yb** | | **19** | | | **11** | | | **11** | | | **5** | | |
| Pwyllgor Safonau | **yb** | | | **10** | | | **2** | | | **22** | | **12** | | |
| CYSAG | **yp** | | **14** | | | | | **8** | | | **7** | | | |
| Pwyllgor Iaith | **yb** | | | **4** | | | **12** | | | **25** | | | **24** | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | **yb** | | | **7** | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | **yb/ yp** | | **9** | **14** | | **15** | **6** | **17** | **1** | **19** | **9** | **23** | **27** | |
| Pwyllgor Pensiynau | **yp** | | **12** | | | **14*** | | **9** | | **18** | | **15** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | **yp** | | | | | | **11** | | | | | **7** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | **yp** | | | | | | **17** | | | | | **20** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | **yb** | | | | | | | **23** | | | | **22** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | **yb** | | | | | | | **7** | | | | **6** | | |
| **DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL** | | **1, 29 - 30** | **1-2** | **24 -31** | **1-31** | | **30-31** | **1-3** | **25-29** | **1-5** | **12-16** | **26-30** | **2-6** | **7** |

*Cyfarfod Blynyddol / *Annual Meeting
am - bore/morning pm – pnawn/ afternoon

•Yn ol yr angen / •As required
Am/pm – trwy'r dydd / all day

***Dyma'r dyddiadau yr ydym yn rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.***